

# Adolygiad o'r Cymorth i Theatr Saesneg yng Nghymru

Adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru gan Dr Jon Gower

Ionawr 2025

"At its best, what can theatre do? Completely revolutionise you. Theatre is about empathy. If you can get performance right, you can change people's preconceptions, those well-entrenched notions about the world and the people in it. You can actually evoke a sense of humanity and empathy. It allows you to be a skin-walker. You can walk, move through somebody else's experience, culture, perspective, and get a sense of that. And I think it's utterly revolutionary what it can do. I think it humanises us. Theatre is absolutely essential."

**Kaite O'Reilly, dramodydd**

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** **04**

**Crynodeb o'r Argymhellion** **05**

**1. Cyd-destun a Dull** **07**
i. Cwmpas 07
ii. Methodoleg 07
iii. Y cyd-destun economaidd 07

**2. Seilwaith theatr** **09**
i. Datblygiadau seilwaith 09
ii. Heriau ariannol y lleoliadau 12
iii. Heriau marchnata'r lleoliadau 12
Argymhellion: Seilwaith theatr 13

**3a. Cynhyrchu a theithio** **14**
i. Rhwystrau rhag mynd â gwaith ar daith 14
ii. Cynnyrch ar raddfa ganolig 16
iii. Cynhyrchu a theithio cynhwysol 17
iv. Theatr genedlaethol 18
v. Maint yr uchelgais 20
vi. Gwaith safle-benodol 20

**3b. Ariannu cynhyrchu a theithio** **22**
i. Arian Creu Cyngor Celfyddydau Cymru 22
ii. Ffynonellau arian eraill 24
Argymhellion: Cynhyrchu a Theithio 25

**3. Datblygu cynulleidfaoedd** **26**
i. Patrymau cynulleidfa 28
ii. Theatr i bawb 28
Argymhellion: Datblygu cynulleidfa 29

**4. Artistiaid a Gwneuthurwyr theatr** **30**
i. Actorion 30
ii. Cyfarwyddwyr 31
iii. Cynhyrchwyr 32
iv. Gwahaniaeth a chynhwysiant 32
v. Mentora 33
vi. Llwybrau i theatr 34
vii. Bylchau o ran datblygu sgiliau 34
viii. Ymchwil a datblygu 35
Argymhellion: Artistiaid a Gwneuthurwyr theatr 35

**5. Ysgrifennu newydd** **36**
i. Comisiynu a datblygu awduron 36
ii. Llwyfannu gwaith 38
iii. Y dramâu o Gymru sydd ar gael 38
Argymhellion: 38
Ysgrifennu Newydd

**6. Cysylltiadau rhyngwladol** **39**
Argymhellion: 41
Cysylltiadau Rhyngwladol

**7. Beirniadaeth theatr** **42**
Argymhellion: Beirniadaeth Theatr 42

**8. Ieuenctid a Datblygu i'r dyfodol** **43**
i. Y gynulleidfa a gwneuthurwyr y dyfodol 43
ii. Heb fod ar y cwricwlwm 46
Argymhellion: 46
Ieuenctid a Datblygu i'r dyfodol

**9. Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru** **47**
Argymhellion: 47
Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru

**Atodiadau** **48**

Atodiad 1: 48
Cwestiynau'r arolwg adolygu

Atodiad 2: 49
Ymgyngoreion yr adolygiad

Atodiad 3: 51
Detholiad o'r ymatebion i'r arolwg adolygu

Atodiad 4: 54
Rhestr o'r sefydliadau aml-flwyddyn sy'n ymwneud â theatr

Atodiad 5: 55
Astudiaethau achos theatr cenedlaethol

Atodiad 6: 56
Data cynulleidfaoedd Portffolio Celfyddydau Cymru

# Crynodeb Gweithredol

**Yn ganlyniad i Adolygiad Buddsoddi 2023 Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r adolygiad hwn yn ystyried y ddarpariaeth theatr Saesneg bresennol yng Nghymru. Mae'n ystyried sut y gellid gwella'r ddarpariaeth hon, a sut y gellid meithrin uchelgais a gweithio ar raddfa i harneisio sgiliau a thalentau creadigol y genedl yn llawn. Byddai hynny wedyn yn sicrhau y caiff gwaith rhagorol a chreadigol, a grëwyd gan sector cynhwysol wedi'i gefnogi, ei berfformio ledled Cymru. Dylai ei argymhellion fod yn sail i gynllun gweithredu a fydd yn rhoi'r gefnogaeth orau i weithgareddau theatr er budd cyhoeddus ehangach ar gyfer cynulleidfaoedd dros ddeng mlynedd. Er mwyn meithrin dewis amrywiol o naratifau y gellid eu profi a'u gwerthfawrogi gan gynulleidfa ehangach, dylai'r holl weithgareddau greu cyfleoedd i dalentau creadigol amrywiol adrodd eu hanesion, a mynd i'r afael â rhwystrau a allai effeithio'n negyddol ar ymgysylltu â'r gynulleidfa, a'u dileu.**

Cafodd yr adolygiad ei gynnal ar adeg o drawsnewid arwyddocaol i theatr Saesneg yng Nghymru, yn dilyn y penderfyniad i roi terfyn ar roi arian craidd blynyddol i National Theatre Wales (NTW). Ers hynny, mae NTW wedi ailgyflwyno ei hun fel y Welsh National Theatre dan ei gyfarwyddwr artistig Michael Sheen ac mae NTW TEAM wedi ymrannu o'i rhiant-sefydliad i weithio fel elusen annibynnol.

Mae newidiadau arwyddocaol eraill yn y ddarpariaeth theatr Saesneg yn cynnwys cwblhau'r gwaith o adnewyddu adeilad Theatr Clwyd a chreu'r Stiwdio Clwyd gysylltiedig fel adnodd cenedlaethol, ynghyd ag adeilad newydd a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Mae'r adolygiad yn cynnig ffyrdd o wella perthynas y Cyngor â'r sector drwy greu amserlenni arian penodol ar gyfer cynhyrchu theatr, a chreu panel theatr wedi'i recriwtio o Gymru a thu hwnt, a fyddai'n denu gwybodaeth arbenigol ac yn helpu i gyfeirio cyllid newydd. Bydda'r cronfeydd hyn yn cynnwys cronfa ddatblygu theatr newydd ar gyfer gwaith ar raddfa fwy.

Gellid cryfhau rôl y Cyngor fel asiantaeth ddatblygu yn hytrach na chorff ariannu drwy gefnogi mentrau hyfforddi gwahanol, a fyddai'n galendr o ddigwyddiadau dros flwyddyn, wedi'u cyd-ddylunio i gryfhau gweithgareddau fel marchnata theatr, cynhyrchu, casglu a dosbarthu data, mentora, codi arian, ac ysgrifennu beirniadol.

Mae'n bosibl y gellir cyfeirio gwaith ymchwil a datblygu'n well, ac mae angen gwaith olrhain ar fuddsoddiadau tebyg. Gallai mentoriaid chwarae rhan yn y gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn nodi pryder nad oes llawer o gyfleoedd ar gael i wireddu'r gwaith ar raddfa fawr a/neu waith safle-benodol y mae gan Gymru enw mor dda ar eu cyfer. Yn ogystal, nodwyd mai cyfyngedig iawn yw nifer y cynyrchiadau theatr maint canolig sy'n teithio i leoliadau yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae angen mwy o waith yn hynny o beth. Teithio yw un o'r agweddau ar theatr y mae'r dirywiad economaidd wedi effeithio arno fwyaf.

Gydag awelon economaidd main yn parhau i chwythu, rhaid i gydweithredu a phartneriaethau chwarae rhan allweddol. Mae Craidd yn enghraifft o hwn, sef partneriaeth a ddaeth â phum cwmni a chorff annhebyg at ei gilydd i gydweithio.

Ar hyn o bryd, mae ystod o gwmnïau'n gyfrifol am greu, cyflwyno a hyrwyddo gwaith newydd. Mae'r adolygiad yn awgrymu ffyrdd newydd o ariannu'r llwybr hwn, ac yn edrych ar ffyrdd o greu cyfleoedd i gyfarwyddwyr, yn enwedig y rhai yng nghanol eu gyrfaoedd, yn ogystal â chefnogi cynhyrchwyr yn y sector.

Caiff y cyfleoedd presennol ar gyfer gwaith rhyngwladol eu hystyried. Awgrymir y dylid asesu gwerth presenoldeb Cymru yng ngŵyl Ymylol Caeredin yn y dyfodol.

Fel dogfen sy'n wynebu'r dyfodol, mae'r adolygiad hwn yn ystyried theatr ar *gyfer* pobl ifanc, ac wedi'i *wneud* gyda phobl ifanc. Dylai'r gwaith o lunio strategaeth gelfyddydau ieuenctid lawn i Gymru fynd law yn llaw â chynllun gweithredu theatr y Cyngor.

# Crynodeb o'r Argymhellion

**Bydd cynllun gweithredu'n nodi manylion ymagweddau ac amserlenni'r argymhellion canlynol.**

## Seilwaith Theatr

**Argymhelliad 1:**
Gwella gallu marchnata'r lleoliadau.

**Argymhelliad 2:**
Gwella prosesau casglu a rhannu data.

**Argymhelliad 3:**
Cefnogi cyfleoedd i raglennwyr weld gwaith.

## Cynhyrchu a Theithio

**Argymhelliad 4:**
Sefydlu amserlenni ariannu penodol ar gyfer cynhyrchu theatr.

**Argymhelliad 5:**
Creu cronfa ddatblygu theatr newydd ar gyfer gwaith ar raddfa fwy.

**Argymhelliad 6:**
Edrych ar fodel grantiau ad-daladwy ar gyfer teithio.

**Argymhelliad 7:**
Cefnogi sefydliadau celfyddydol i wella eu cyfraddau llwyddiant gydag ymddiriedolaethau a sefydliadau.

## Datblygu Cynulleidfa

**Argymhelliad 8:**
Gan adeiladu ar waith Hynt, annog lleoliadau i gefnogi perfformiadau a addaswyd ar gyfer aelodau cynulleidfa sydd ag anghenion mynediad sy'n eu hatal rhag mynychu lleoliadau theatr 'arferol'.

**Argymhelliad 9:**
Adeiladu ar arferion presennol, gan gynnwys y gronfa Ewch i Weld, er mwyn sicrhau y bydd pobl ifanc yn profi theatr yn gynnar.

## Artistiaid a Gwneuthurwyr Theatr

**Argymhelliad 10:**
Archwilio posibiliadau ar gyfer cyfleoedd cyfarwyddo i ategu'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd yn Theatr Clwyd, y Sherman ac mewn cwmnïau unigol, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu rhwystrau i fynediad.

**Argymhelliad 11:**
Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhyrchwyr trwy gynnal digwyddiad deuddydd cychwynnol i gynhyrchwyr er mwyn mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol o ran hyfforddi a chreu cyfleoedd rhyngweithio.

**Argymhelliad 12:**
Adeiladu ar ymarfer da, fel prentisiaethau creadigol Canolfan Mileniwm Cymru a phrosiect Llyfr Agored yn arbennig, er mwyn cefnogi ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr i fynd i'r sector a gwneud cynnydd ynddo.

**Argymhelliad 13:**
Sicrhau y caiff prosesau ymchwil a datblygu eu holrhain, gyda mwy o waith asesu trwy fentoriaid o bosib, er mwyn gwerthuso eu gwerth yn llawn.

**Argymhelliad 14:**
Sefydlu rhwydwaith o fentoriaid er mwyn helpu i unigolion a chwmnïau ddatblygu eu gwaith, gan gynnwys sut allant chwarae rhan yn y prosesau ymchwil a datblygu.

**Argymhelliad 15:**
Amlygu'r llwybr ar gyfer gwneud cais am arian Creu i unigolion, gan gynnwys arian ar gyfer hyfforddi a datblygu.

**Argymhelliad 16:**
Annog y gwaith o ddatblygu digwyddiadau ymchwil a datblygu sy'n cynnal nifer o raniadau ar yr un pryd.

## Ysgrifennu newydd

**Argymhelliad 17:**
Sefydlu fersiwn o'r Cynllun Comisiynu Drama Newydd ar raddfa fach, i'w weinyddu gan Urdd Awduron Prydain Fawr yng Nghymru.

**Argymhelliad 18:**
Sefydlu cyfres Dramâu Cymru debyg i Lyfrgell Cymru. Hefyd, edrych ar greu llyfrgell ddigidol o ddramâu gan ddilyn y model a sefydlwyd gan Theatr Cymru.

## Cysylltiadau Rhyngwladol

**Argymhelliad 19:**
Asesu rhinweddau sefydlu mwy o gyfleoedd i ymarferwyr theatr a threfnwyr lleoliadau yng Nghymru, fel Cymrodoriaeth y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio.

**Argymhelliad 20:**
Gwerthuso presenoldeb ac arddangos Cymru yng ngŵyl Ymylol Caeredin cyn 2026, a chanfod a gwerthuso cyfleoedd eraill i gyfranogi mewn gwyliau eraill.

## Beirniadaeth Theatr

**Argymhelliad 21:**
Cefnogi cynllun datblygu ar gyfer adolygwyr theatr.

## Ieuenctid a Datblygu i'r dyfodol

**Argymhelliad 22:** Datblygu strategaeth theatr y Cyngor mewn cydweithrediad â phobl ifanc a sefydliadau partner allweddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 23:**
Y Cyngor i gwrdd â CBAC er mwyn trafod mecanweithiau ar gyfer ystyried cynnwys dramâu o Gymru yn y maes llafur.

## Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru

**Argymhelliad 24:**
Enwebu aelod o staff Cyngor Celfyddydau Cymru i gydgysylltu'r gwaith sy'n codi o'r adolygiad hwn ac wedyn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth theatr Saesneg i Gymru.

**Argymhelliad 25:**
Sefydlu panel theatr sy'n cynnwys aelodau gwahanol a gwirioneddol gynrychiadol o Gymru a thu hwnt, i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r adolygiad hwn, datblygu strategaeth theatr Saesneg, a gwerthuso a chynghori ar gyllid newydd (gweler argymhellion 4-6).

# 1. Cyd-destun a Dull

## i. Cwmpas

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cefnogi theatrau a gwneuthurwyr theatr mewn amryw o ffyrdd ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- Arian amlflwyddyn i sefydliadau (gweler atodiad 4, wedi'i bennu gan Adolygiad Buddsoddi 2023)
- Arian Creu y Loteri Genedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion
- Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar gyfer cydweithredu rhyngwladol
- Cydnerthedd, cymorth i amddiffyn swyddi ac arian cyfalaf ar sail ad hoc
- Cronfeydd llai o faint penodol/wedi'u targedu fel Cronfa Cydrannu (i gefnogi rhwydweithiau a dysgu gan gymheiriaid).

Pennodd briff yr adolygiad gwestiynau (gweler Atodiad 1) a fyddai'n llywio cyfres o argymhellion i'r Cyngor ar y ffordd orau iddo gefnogi a datblygu'r sector theatr Saesneg. Mae'r briff yn pwysleisio **cynllun gweithredu sy'n edrych ar newid tymor hirach dros 10 blynedd**.

## ii. Methodoleg

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Ionawr 2025. Ar ddechrau'r adolygiad, cytunwyd ar restr o randdeiliaid allweddol gyda'r Cyngor, a ychwanegwyd ati yn ystod y broses ei hun. Cafodd eraill eu hannog i gyfrannu gan bolisi drws agored.

Cynhaliwyd dros 120 o gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr amrywiol o'r sector theatr ledled Cymru (gweler Atodiad 2), yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd â staff y Cyngor a staff Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Dosbarthwyd arolwg ar-lein (atodiad B) trwy gylchlythyr y Cyngor at gyfweledigion ac yn uniongyrchol i'r holl ymgeiswyr am arian Loteri y Cyngor ar gyfer prosiectau theatr Saesneg yn ystod y ddwy flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd 30 o ymatebion i'r arolwg.

Mae'r adolygiad yn cyfuno mewnbwn o gyfweliadau uniongyrchol a'r arolwg ar-lein. Mae hefyd yn y cynnwys achosion enghreifftiol.

## iii. Y cyd-destun economaidd

Mae'n bwysig cydnabod yr amgylchedd economaidd y mae celfyddydau â chymhorthdal yn rhan ohono heddiw. Mewn termau real, mae cyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru wedi lleihau 40% ers 2010. Mae'r argyfwng costau byw yn cymhlethu'r toriadau hyn eto fyth.

Yn nrama ddiweddaraf Tim Price *Odyssey'84*, gwneir cysylltiadau rhwng y gefnogaeth a roddwyd i lowyr a'u teuluoedd yn ystod y streic yn 1984 a banciau bwyd yn 2024.

Mae'n cysylltu un cyfnod anodd yn hanesyddol â'r argyfwng costau byw presennol, sy'n effeithio ar bob safle cymdeithasol, gan gynnwys y celfyddydau.

Heb os, mae'r argyfwng costau byw a'r toriadau ailadroddus yn arian y Cyngor yn rhoi beichiau newydd ar y sector theatr, o gwmnïau i dai cynhyrchu, i wneuthurwyr unigol. Nid yw llawer o'r gwneuthurwyr theatr yn gallu fforddio mynd i'r theatr, yn enwedig os yw'n ymwneud â theithio i weld y gwaith tu allan i Gymru. Yn aml bydd hyn yn niweidio eu datblygiad personol eu hunain.

**Yng ngoleuni'r heriau niferus a wynebir gan y sector yng Nghymru, mae angen clir am fwy o fuddsoddiad a modelau ariannu newydd.**

Yn wyneb yr awelon economaidd main, gall y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol gyfrannu'n sylweddol i'r economi. Yn 2024, dangosodd Adroddiad Effaith Economaidd Cyngor Celfyddydau Cymru, a gynhaliwyd gan yr arbenigwyr ymchwil annibynnol Deyton Bell, roedd £2.51 yn mynd yn ôl i'r economi am bob £1 o arian cyhoeddus a dderbyniwyd gan y Cyngor yn 2023/24. Caiff arian y Cyngor ei ddosbarthu ledled y wlad, gan roi buddion i bob cymuned. Roedd gan y diwydiant celfyddydau a diwylliant yng Nghymru drosiant o £1.64 biliwn yn 2023/24. Yn ystod y degawd diwethaf, mae cyflogaeth yn y celfyddydau, diwylliant a diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi tyfu 19% – o 28,900 yn 2014 i 36,960 yn 2023.

Gall theatr fod yn elfen bwysig o'r effaith economaidd honno. Dangosodd arolwg diweddar fod Theatr Clwyd yn Sir y Fflint yn cynhyrchu £10 miliwn i'r economi leol bob blwyddyn, ar sail ei throsiant presennol. Amcangyfrifir y bydd y swm hwn yn dyblu os nad treblu pan fydd yr adeilad yn agor yn llawn yn 2025:

"Rydym wedi arallgyfeirio'n hincwm mewn ffordd sy'n ein galluogi ni i barhau i fodoli, ond mae llai o gyfleoedd a hynny dim ond yn Theatr Clwyd. Os edrychwch chi ar yr holl leoliadau eraill… maen nhw'n cael trafferth i ddatblygu cynulleidfaoedd. Ac os ydych chi eisiau adeiladu cynulleidfaoedd y lleoliadau hyn, mae hynny'n brosiect 10-blwyddyn o gynnyrch o ansawdd yn y lleoliadau hynny o hyd… pan fyddwch chi'n rhoi rhywle i bobl fynd a gwneud gwaith a'i wneud yn gartref theatraidd iddynt, mae'r dalent yn datblygu."

Ar wahân i'w werth cynhenid a'r enillion economaidd, mae theatr a'r celfyddydau ehangach yn greiddiol i lesiant ac mae'n gallu chwarae rhan yn ein hiechyd drwy ennyn cysylltiad, cymuned a mynegiant. Ac mae theatr yn chwarae'r rhan hon.

Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir llwm o ddirywio. Ym mis Ionawr 2025, nododd adroddiad Pwyllgor Diwylliant a Chwaraeon y Senedd fod Cymru dau safle i ffwrdd o waelod rhestr gwledydd Ewrop o ran gwariant y pen ar wasanaethau hamdden a chwaraeon, ac un safle o waelod y rhestr o ran gwasanaethau diwylliannol, a hynny wedi degawd o doriadau.

# 2. Seilwaith Theatr

Mae Cymru'n gartref i rwydwaith o theatrau a chanolfannau celfyddydol, ynghyd â lleoliadau cymunedol sy'n cynnal theatr, a gefnogwyd yn aml gan gynllun Noson Allan. Mae Atodiad 4 yn rhestru'r lleoliadau hynny a gefnogir gan arian amlflwyddyn y Cyngor. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae'r lleoliadau yn wynebu 'storm berffaith' o gostau cynyddol, llai o arian, a chynulleidfaoedd a effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng costau byw. Hefyd, mae newidiadau sylweddol ar y gweill.

## i. Datblygiadau seilwaith

Bydd llawer o newidiadau seilwaith i ddarpariaeth ffisegol theatr yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf, fel y rhai yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Bydd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cyflawni gwaith ar gadwyn o leoliadau yn ne-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Neuadd Tref Maesteg, y Muni ym Mhontypridd, Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl, Neuadd y Gweithwyr ym Mlaengarw, a'r Metropole (Met) yn Abertyleri. Mae'r ymddiriedolaeth eisoes wedi bod yn comisiynu dramâu newydd ynghyd â chyflwyno cynyrchiadau theatr sy'n ymweld.

Mae hefyd cynlluniau ar y gweill ar gyfer gofodau perfformio newydd ar rai o gampysau addysg uwch newydd Cymru, fel Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, lle mae theatr 250 o seddi yn cael ei chreu.

Y datblygiad mwyaf arwyddocaol o bell ffordd yn seilwaith theatr Saesneg yn ystod y blynyddoedd nesaf yw cwblhau'r gwaith o ailddatblygu Theatr Clwyd yn y Wyddgrug, Sir y Fflint. **Gyda'i gilydd â chynlluniau Canolfan Mileniwm Cymru, bydd y rhain yn elfennau allweddol ar sector theatr Cymru, ar naill ben y wlad.**

Astudiaeth Achos:

# Canolfan Mileniwm Cymru

## Gyda Chanolfan Mileniwm Cymru'n dathlu ei phen-blwydd yn 20, mae lleoliad newydd yn bwriadu chwyldroi'r dirwedd ddigidol a chelfyddydau ymdrochol yng Nghymru a thu hwnt.

Bydd y safle'n cynnwys gofod 550 o seddi a neilltuwyd ar gyfer archwilio pŵer profiadau ymdrochol, ynghyd â chyfleusterau ar gyfer cynhyrchu, ymarfer, a hyfforddi. Hwn fydd yr adeilad cyntaf annibynnol a ychwanegwyd gan Ganolfan Mileniwm Cymru ers ei hagor yn 2014. Mae'r Ganolfan yn cynhyrchu dros £70 miliwn i economi Cymru ar hyn o bryd, gan ddenu 1.8 miliwn o ymwelwyr. Wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion artistiaid a chrewyr sy'n newid yn barhaus trwy ddefnyddio offer a thechnolegau newydd, bydd lleoliad newydd Canolfan Mileniwm Cymru yn ategu'r gofodau perfformio presennol gan gynnwys Theatr Donald Gordon (1,900 o seddi), Theatr Weston (250 o seddi), a lleoliad Cabaret (150 o seddi). Bydd hefyd yn gwella rôl hollbwysig y Ganolfan yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac yn y DU.

Mae'r Ganolfan eisoes yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu cynhwysol i gefnogi artistiaid ymdrochol.

"Rydym yn adeiladu gofod newydd sy'n focs mawr du ag ystafell ymarfer a stiwdio gynhyrchu newydd. Felly bydd gennym seilwaith ar y campws hwnnw nad yw'n bodoli unman arall yn y DU. Gallai'r hyn y byddai'r sector yn gallu ei wneud gyda hwn fod yn anhygoel. Credaf fod potensial anferth ar y gorwel, os edrychwn ni, gyda gofod newydd yn y gogledd, Theatr Clwyd, sy'n mynd i fod yn wych."



Astudiaeth Achos:

# Theatr Clwyd

**Amcangyfrifir y bydd y prosiect buddsoddi cyfalaf gwerth £50 miliwn i ailddatblygu Theatr Clwyd yn creu 100 o swyddi newydd, gan gynhyrchu hwb blynyddol gwerth hyd at £30 miliwn i'r economi leol. Bydd yr adeilad hefyd yn garbon positif y rhan fwyaf o'r amser.**

Agorodd y brif lwyfan cyn gweddill yr adeilad ym mis Tachwedd 2024, a chynnal ei bantomeim blynyddol sy'n denu cynulleidfa o 40,000 bob tymor.

Bydd y gwaith ailddatblygu'n gwella holl alluoedd creu theatr Theatr Clwyd. Mae'n un o bedair theatr yn unig ledled y DU sy'n parhau i fod â'r adrannau gwneud theatr o dan yr un to: y gwneuthurwyr gwisgoedd, yr artistiaid golygfeydd, adeiladwyr y setiau gan gynnwys y weldwyr a'r seiri coed, y gwneuthurwyr propiau a'r technegwyr goleuadau a sain. O ganlyniad, mae ganddi'r gofod penodol sydd ei hangen i hyfforddi talent y dyfodol yn yr adrannau hynny.

Gwelwyd twf sylweddol yn y nifer a gyflogwyd gan Theatr Clwyd, sy'n cyd-fynd â'r ehangiad cyfalaf. Yn 2016, cyflogwyd cwmni craidd o 60 o aelodau gan y theatr. Ar hyn o bryd, mae ei gweithlu'n cynnwys 153 o bobl. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i 500 o weithwyr llawrydd fel actorion, cyfarwyddwyr a cherddorion bob blwyddyn.

Mae'r stiwdio datblygu artistiaid i Gymru *Stiwdio Clwyd* yn ddatblygiad allweddol. Bydd y stiwdio'n darparu'r rhaglen ddatblygu proffesiynol ddynodedig flwyddyn gron gyntaf yng Nghymru i wneuthurwyr theatr o bob rhan o fyd y theatr, ac ar bob cam o'u gyrfa. Ni fwriedir Stiwdio Clwyd yn llinell gynhyrchu ar gyfer cyflwyniadau mewnol Theatr Clwyd, ond yn hytrach yn fuddsoddiad hirdymor mewn gwneuthurwyr theatr yng Nghymru. Un elfen fydd rhaglen awduron preswyl, lle bydd rhwng chwech a deg awdur, ar wahanol gamau o'u gyrfa, yn ymweld â Theatr Clwyd bob blwyddyn i ysgrifennu. Byddant hefyd yn derbyn tâl ar gyfradd broffesiynol.

Bydd Theatr Clwyd hefyd yn cynnal cynllun 'cwmnïau preswyl' yn ystod cyfnodau tawel, a fydd yn cynnwys mentora; a chaiff swydd dylunio dan hyfforddiant 2-flwyddyn ei rhoi i berson newydd raddio o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru bob blwyddyn.

## ii. Heriau ariannol y lleoliadau

Mae Creu Cymru, corff aelodaeth theatrau a chanolfannau celfyddydol a reolir yn broffesiynol, cwmnïau cynhyrchu a gweithwyr llawrydd yng Nghymru, yn awgrymu: "Mae'r sector theatr yn wynebu heriau o sawl cyfeiriad. Mae ein holl aelodau'n dioddef costau cynyddol, ochr yn ochr â phwysau cynyddol ar arian cyhoeddus a phrinder sgiliau ar draws y sector."

Awgrymodd cyfarwyddwr theatr mai un effaith o hyn yw "Mae'r gefnogaeth o leoliadau a theatrau eraill yn diflannu gan fod y llinellau economaidd mor anodd. Er mai meddylfryd y gymuned yw rhannu ac i fod yn agored, yn economaidd rydyn ni'n cael ein gosod mewn bocsys bach i ymladd yn erbyn ein gilydd."

Ystyrir bod y diffyg arian ar gyfer timau datblygu'r celfyddydau, a chau neu ailddatblygu sefydliadau fel Sefydliadau Glowyr a Neuaddau Gweithwyr "yn erydu ymhellach mynediad pobl ifanc i theatr mewn trefi bach a lleoliadau mwy gwledig, gan adael opsiynau cyfyngedig iddynt wylio a gwneud theatr, ar wahân i fentrau masnachol sy'n gallu bod yn afresymol o ddrud. Rhaid mynd i'r afael ar frys â'r ddarpariaeth hon sy'n diflannu os ydym am feithrin theatr Saesneg iach a chymdeithasol amrywiol yng Nghymru."

Mae dod o hyd i ofod am ddim ar gyfer gwneuthurwyr theatr yn tyfu'n fwyfwy anodd gyda lleoliadau'n cael trafferth oherwydd llifau arian sy'n lleihau. Er enghraifft, yn 2023-24, roedd Canolfan Chapter yng Nghaerdydd yn gallu cynnig 5,432 o oriau o ofod ymchwil a datblygu â chymhorthdal, a £101,000 o gymorth rhent. Yn 2024, gostyngodd y ffigurau hynny i 1,500 o oriau a £40,000.

## iii. Heriau marchnata'r lleoliadau

Cododd y broblem farchnata sawl gwaith yn ystod y cyfweliadau. Mae trosiant uchel ymysg staff marchnata. Mewn lleoliadau llai, mae'n bur debyg y bydd person y swyddfa docynnau hefyd yn gyfrifol am ddyletswyddau blaen y tŷ ynghyd â dyletswyddau eraill. Gall cwmnïau deimlo'n siomedig am niferoedd cynulleidfa, gan feio'r adran farchnata. Mewn enghraifft ddiweddar, dywedwyd wrth gwmni na chafodd unrhyw waith marchnata ei wneud o gwbl.

"Dwi'n teimlo dros y bobl farchnata. Dwi'n meddwl weithiau bod cwmnïau teithiol yn gallu bod yn ddig iawn gan fod cyn lleied o waith wedi cael ei wneud i farchnata diwrnod o ddwy neu dair sioe. Ond os mai chi yw unig swyddog marchnata'r lleoliad sy'n gwneud deunyddiau Cymraeg, Saesneg, comedi, bandiau teyrnged, gwaith plant, ysgrifennu newydd. A dim ond mil o ddilynwyr sy gyda chi ar Instagram. Byddai lleoliadau wir yn hoffi cynnig rhaglen amrywiol iawn o waith, ond nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny o reidrwydd."

Ond o gofio'u hadnoddau, nid yw lleoliadau'n gallu marchnata popeth ar y rhaglen yn llawn. Yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth: "Mae gennym dros 7,000 o weithgareddau'r flwyddyn a dalwyd amdanynt. Allwch chi ddim neilltuo adnodd marchnata ar gyfer pob un."

### Materion allweddol:

— **Diffyg beirniadaeth theatr yng Nghymru.**
Gall effaith gadarnhaol beirniadaeth dda ysgogi niferoedd cynulleidfa. (Eir i'r afael â'r pwnc hwn yn hwyrach yn yr adroddiad)

— **Diffyg data**.
Mae data'n hanfodol ar gyfer deall faint o bobl sy'n mynd i'r theatr a'u rheswm dros fynd, ac hefyd pam fod pobl yn dewis aros adref. Mae gan leoliadau masnachol a chynhyrchwyr masnachol fel Trafalgar wybodaeth helaeth ynghylch ei gynulleidfa, ac mae'n hollbwysig i'w fodel busnes a sut y byddant yn perfformio ac yn llunio ei negeseuon. "Oes gennym ni'r data i ddeall ble mae ein cynulleidfa ar draws y genedl, ydyn ni'n gwybod beth sy'n boblogaidd ymysg ein cynulleidfa? Ers y pandemig, dwi ddim yn meddwl bod y cynulleidfaoedd cweit yn yr un lle â'r artistiaid."

— **Heriau rhaglennu**.
Gall y calendr perfformiadau fod yn orlawn ar rai adegau o'r flwyddyn. Gall mis Hydref fod yn llawn nosweithiau agoriadol gyda chyfnodau tawel ar eu hôl. Hefyd, nid yw lleoliadau derbyn - sydd o dan bwysau ariannol aruthrol - yn gallu gweld gweithiau newydd mewn gwyliau ac arddangosfeydd er mwyn ystyried dod â hwy i Gymru. Er bod Celfyddydau Rhyngwladol

> Cymru wedi cefnogi rhai cyfleoedd, mae angen cymorth ar raglenwyr i weld gwaith o raddfa berthnasol ac i rwydweithio gyda phartneriaid o leoliadau eraill.

Cefnogwyd yn fras y syniad o gael rhyw fath o **hyfforddiant i farchnata'r celfyddydau** a gyfarwyddwyd gan y Cyngor "lle gallai bawb ddod ynghyd, cwrdd â'i gilydd, meithrin y perthnasau hynny. Dwi'n credu bod gan yr *Arts Marketing Association* rhan i'w chwarae yn hynny o beth hefyd, gan iddynt esgeuluso Cymru ers amser hir."

Dros gyfnod yr adolygiad, cafwyd llawer o enghreifftiau o farchnata effeithiol, o effeithiolrwydd dosbarthu taflenni'n uniongyrchol gan Theatr na Nog, trwy farchnata i'r trydydd sector ar gyfer *Mumfighter* gan Grand Ambition, i weithwyr Dŵr Cymru'n dosbarthu taflenni ar gyfer *Olion* gan Frân Wen. Gellir rhannu mentrau a gwybodaeth debyg mewn digwyddiad hyfforddi o'r fath, a rhannu gwybodaeth am dirwedd newidiol y cyfryngau cymdeithasol hefyd. Gallai fod yn gynhadledd, yn ddigwyddiad undydd neu sioe deithiol sy'n ymweld â phob lleoliad yn ei dro.

## Argymhellion: Seilwaith theatr

**Argymhelliad 1:**
Gwella gallu marchnata'r lleoliadau

**Argymhelliad 2:**
Gwella prosesau casglu a rhannu data

**Argymhelliad 3:**
Cefnogi cyfleoedd i raglennwyr weld gwaith

Astudiaeth Achos:

## Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

**Mae tymor yr haf Canolfan Celfyddydau Aberystwyth - gweithgaredd saith wythnos sy'n costio £40,000 – bellach yn denu oddeutu 6,000 o aelodau cynulleidfa. Bellach mae'r cyfnod hwn a oedd yn dawel yn draddodiadol yn nodwedd allweddol. Felly mae gan ei blwyddyn gyflwyno ddau ben sef pantomeim cymunedol a thymor yr haf, y ddau'n darnau sy'n ymgysylltu'n dda gyda'r gynulleidfa, yn llawn hwyl ac apêl boblogaidd.**

"Mae gennym dymor yr haf yma ac rydyn ni eisiau iddo barhau. Dylai fod yr un maint, a chael yr un apêl, a sioe gerdd. Rydyn ni'n cyflogi deg perfformiwr proffesiynol, a band proffesiynol o ryw 5 neu 6 fel arfer. Oddeutu 35 o weithwyr proffesiynol eraill gyda'r gwisgoedd. A phopeth yn dod o'r gyllideb fewnol. Yn ystod yr haf, rydyn ni'n cyflogi o leiaf 35 o weithwyr llawrydd. Mae hynny'n beth mawr, weithiau byddwn ni'n cyflogi tua 130 mewn blwyddyn, felly mae'n rhan dda o'r gwaith deori sector o'n cwmpas ni."

# 3a. Cynhyrchu a Theithio

**Enaid theatr yw gwireddu gwaith a'i gyflwyno – gan gynnwys mynd â gwaith i leoliadau ledled Cymru a thu hwnt. Oherwydd y pwysau economaidd, prin iawn yw'r teithiau mawr sy'n digwydd yng Nghymru. Mae'r ymatebwyr hŷn yn cofio Theatr Clwyd yn ymweld â New Theatre Caerdydd yn rheolaidd, er bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer cyd-gynyrchiadau Clwyd/Sherman.**

Mae theatr i bobl ifanc yn ddarpariaeth deithiol bwysig a gweithgar yng Nghymru o hyd. Er enghraifft, mae'r Sherman yn mynd â'i sioeau i blant dan 7 oed ar daith, ynghyd â chwmnïau fel Theatr na Nog a Theatr Iolo sy'n mynd â'u gwaith at gynulleidfaoedd iau.

Cefnogir y broses o fynd â dramâu Saesneg ar raddfa lai ar daith gan gynllun Noson Allan y Cyngor. Yn 2022-23, cafwyd 489 o berfformiadau ac roedd 118 ohonynt yn sioeau drama: "Mae cynllun Noson Allan yn gweithio fel ffordd o wneud i bethau digwydd yn y cymunedau, ac mae'n fodel hardd. Costau popeth yw'r broblem, mewn gwirionedd. Pymtheng mlynedd yn ôl, byddai cwmni theatr yn cael £700 ac roedd yn talu'r cyflogau ac ati. Erbyn hyn, dyw cael £900 ddim yn cyffwrdd yr ochr, ac fel popeth arall, mae'n crebachu."

Mae blaenoriaethu gwaith a ddaw o ystod fawr o safbwyntiau sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd eang wrth wraidd theatr llwyddiannus yng Nghymru. Mae ymagwedd gynhwysol at gynhyrchu a theithio yn hollbwysig.

## i. Rhwystrau rhag mynd â gwaith ar daith

O gofio'r cynnydd mewn prisiau tanwydd wedi'i gyfuno â'r argyfwng costau byw, mae'r dirywiad economaidd wedi cael effaith andwyol benodol ar theatr deithiol. Mae hwn yn gyfyng-gyngor yn gyffredinol.

Mae cyfarwyddwr artistig Theatr Hijinx, Ben Pettitt-Wade, yn awgrymu bod teithio bron yn amhosibl erbyn hyn: "Yn enwedig nawr, ar ôl y pandemig, mae'n hunllef bur – costau tanwydd, costau llety, a'r costau o'i wneud."

Mae'n nodi gwahaniaeth amlwg rhwng ffioedd yn y DU a'r ffioedd ar gyfandir Ewrop:

"Rydych chi'n trafod ffi taith gyda lleoliadau fan hyn, ac mae ei ddisgwyliad yn llawer is na chost wirioneddol cyflwyno'r darn hwnnw o waith yn eu lleoliad nhw oherwydd maen nhw'n disgwyl eich bod yn derbyn cymhorthdal amdano. Ond os ewch chi y tu allan i'r DU, maen nhw'n disgwyl nid yn unig i dalu'r gost lawn, ond hefyd i dalu rhywfaint at y gwaith o greu'r darn hwnnw o waith. Lle allwn ni gael £3,000 o leoliad yn Ewrop, rydych chi'n edrych ar frwydro i gael £1,000 i fynd â'r gwaith i theatr yn y DU."

Gall lleoliadau petruso rhag archebu cynnyrch teithiol am fwy nag un noson. Caiff y broblem hon ei chwyddo os yw'n daith o waith cynhwysol:

"Yn ddiweddar, rydyn ni wedi dechrau herio'r syniad hwn o deithio un noson ar y tro. Dyw hi ddim yn gynaliadwy inni o gwbl - mae gan lawer o'n perfformwyr gyflyrau iechyd sy'n amrywio, a lefelau egni. A gan ein bod ni'n gweithio gyda pherfformwyr a phobl greadigol fwy niwroamrywiol, dyw hi jyst ddim yn gynaliadwy. Ac mae gennym dîm hir, mawr ar y ffordd. Ar ein taith ddiwethaf, cawsom wythnos ym mhob man, am bum wythnos, llwyddiannus iawn. Ac rydym yn gweithio ledled Cymru nawr."

Gyda Sonia Beck, Adrian Metcalfe yw cyd-sylfaenydd cwmni Lighthouse Theatre, un o'r ychydig gwmnïau sy'n teithio gyda sioeau unnos ledled Cymru. Mae Lighthouse wedi ymroi i gynhyrchu 'dehongliadau ar sail cymeriad o destunau clasurol, sgriptiau ffilm ac ysgrifennu newydd ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn gysylltiedig yn gyffredinol â theatr prif-ffrwd, ynghyd â chynulleidfaoedd theatr mwy traddodiadol.'Ei gynhyrchiad diweddaraf oedd 21 noson o'r sioe *O Little Town of Aberystwyth*, cydweithrediad â'r awdur noir o Gymru Malcolm Pryce, a deithiodd i 18 o leoliadau. "A gan ein bod ni wedi adeiladu cynulleidfa, mae gennym ni leoedd – dwi ddim yn dweud y gallwn ni droi i fyny a darllen y llyfr ffôn - ond mae pobl yno sy'n edrych ymlaen at ein gweld ni."

Soniodd un cynhyrchydd am y gwahaniaeth sydd rhwng teithio yng Nghymru a theithio ar draws y ffin yn Lloegr, i bob golwg:

"Dwi wedi bod yn teithio mewn sioe yn Lloegr ers dwy flynedd, a phopeth yn iawn. Cyn gynted â daf fi i Gymru, maen nhw'n dweud o, mae hi mor anodd i gael pobl i mewn. Dyw llawer o theatrau Cymru ddim yn gwybod sut i raglennu ysgrifennu newydd. Ar hyn o bryd, mae'n teimlo nad yw lleoliadau'n gwybod sut i siarad am theatr gyda'r cynulleidfaoedd ac maen nhw'n mynd i banig. Byddwch chi'n cael eich bwcio am noson a dim ond dau berson sy'n dod, a dwi'n gofyn i fy hun pam wnes i fothran?"

Awgrymwyd ffyrdd o ailfeddwl modelau teithio gan gynhyrchydd profiadol:

**1. Mwy o bwyslais a ffocws ar adeiladu momentwm yn lleol cyn i'r gwaith fynd ar daith fwy helaeth.**
Gallai hyn olygu un neu ddau leoliad i gychwyn, gan feithrin perthnasau ac ymddiriedaeth, cyn tyfu'r gwaith pan fydd yn barod ac mae'r gynulleidfa'n ymddiried ynddo.

**2. Amserlenni grantiau hirach a mwy hyblyg.**
Petai amserlenni ariannu'n fwy hyblyg, neu'n cael eu hymestyn, byddai'n caniatáu mwy o amser i ymdrin â newidiadau fel lleoliadau'n cael eu harchebu blwyddyn ymlaen llaw, neu fylchau sydyn yn yr amserlen.

**3. Cryfhau'r cysylltiadau rhwng lleoliadau a chynhyrchwyr.**
Allai Creu Cymru neu gorff tebyg chwarae mwy o ran yn y gwaith o gysylltu lleoliadau a chynhyrchwyr? Gallai sgyrsiau rheolaidd, cydgynlluniau rhaglennu, neu broses gyd-gynllunio o ryw fath wneud gwahaniaeth mawr.

## Gallai enghreifftiau gynnwys:

— Lleoliadau'n rhannu'r mathau o sioeau y maent yn eu blaenoriaethu (e.e., rhaglenni i deuluoedd, gwaith hygyrch, neu fathau penodol o gelfyddyd). Gallai hyn helpu i gynhyrchwyr alinio eu gwaith â strategaeth y lleoliad

— System lle bydd lleoliadau'n mewnbynnu amserau dechrau prosesau rhaglennu, pan fyddant yn agored i dderbyn gwaith teithiol neu nodi dyddiadau penodol, bylchau yn y rhaglen.

## ii. Cynnyrch ar raddfa ganolig

Mae diffyg cynnyrch theatr Saesneg teithiol ar raddfa ganolig ar gael i leoliadau yng Nghymru ar hyn o bryd.

Disgrifiwyd y sefyllfa gan un lleoliad yn "Amhosibl bron. Rydyn ni'n ceisio cynnal perthynas fel stiward cynulleidfaoedd, ond prin iawn yw'r cynnig Saesneg. A gallwn ni ddim cynnig rhaglen sy'n ymbil ar gynulleidfa i ddarganfod gwaith, neu barhau'r berthynas â'r gynulleidfa draddodiadol, os nad yw'r gwaith ar gael."

"Gwendid yng Nghymru yw nad oes gennym gwmnïau Saesneg fel Pentabus neu Farnham Maltings, sy'n gallu gwneud gwaith ar raddfa stiwdio. Beth sy ddim gyda ni yw fersiwn Saesneg o Theatr Bara Caws. Byddai hynny'n ddelfrydol."

Mae cwmni Nearside yn ymchwilio i ddull newydd o gynhyrchu gwaith teithiol i leoliadau ar hyn o bryd, ac yn ei ddatblygu (gyda chefnogaeth ariannol y Cyngor). Mae model Nearside yn gwmni theatr a ysgogir gan straeon, a fyddai'n agor gwaith newydd ymhob lleoliad sy'n rhan o rwydwaith bob mis Mai. Mae lleoliadau'n cefnogi'r syniad yn gyffredinol, yn rhannol oherwydd y byddant yn cydweithredu â'i gilydd mewn amdaith deithiol, sy'n cynnig manteision o ran cyd-farchnata, ac oherwydd y bydd pob lleoliad yn cael y budd o lwyfannu ei noson agoriadol ei hun.

"Mae'n wir fod rhai cynulleidfaoedd yng Nghymru yn llai cyfarwydd â gadael y tŷ. Ystyriwch enghraifft bantomeim: mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal i fod yn gaeth iddo. Pam? Oherwydd mae'n draddodiad o hyd i fynd i weld y panto lleol bob blwyddyn. Mae'n sefydliad. Ac mewn sawl ffordd, yr hyn rydyn ni'n ei gynnig yw sefydlu traddodiad newydd, sefydliad newydd: digwyddiad blynyddol sy'n denu'r gynulleidfa leol."

Astudiaeth Achos:
### Black Rat

Mae Black Rat yn gwmni sy'n teithio'n rheolaidd yng Nghymru. Aeth y cwmni â sioe *The Three Musketeers* ar amdaith yn ddiweddar: "Gyda chwmni fel Black Rat – byddwch chi'n cael noson allan gwych o ansawdd, a byddwch chi'n mynd adref wedi mwynhau eich hun. Dyw'r gwaith mwy heriol, yn enwedig os yw'n ymwneud â themâu sy'n faterion ôl-pandemig fel tlodi a chostau byw, ddim cweit yn yr un lle â'r gynulleidfa ar y foment."

"Mae Black Rat yn gwmni teithiol ar raddfa ganolig sy'n creu gwaith diddorol. Maen nhw'n gwneud i rwydwaith o leoliadau weithio iddynt. Maen nhw'n cynhyrchu deunydd o ansawdd sy'n creu noson allan dda, ac mae'r gynulleidfa'n ymddiried yn y brand hwnnw ac yn dod i'w weld pan fydd yn mynd ar daith."

"Mae'r cynnwys yno i roi amser da i'r gynulleidfa, ond rydyn ni'n haenu'r sgiliau fel ein bod ni'n rhoi sgiliau theatraidd iddynt. Dyw hi ddim yn ddrama maen nhw'n mynd i'w mwynhau, fel comedi syml, fel Alan Ayckbourn syml. Ni'n ceisio ei wneud mewn ffordd sy'n dod â theatr iddynt. Dwi wrth fy modd bod lleoliadau'n ein harchebu ni ar gyfer blwyddyn nesaf heb wybod beth yw teitl y sioe, gan eu bod nhw'n gwybod ein bod ni'n deall y lleoliadau. Ar daith debyg, mae'n rhoi'r gynulleidfa yn ei chanol hi, y cymunedau, beth maen nhw ei angen." (Richard Turley, Black Rat)

## iii. Cynhyrchu a theithio cynhwysol

Er mwyn i theatr yng Nghymru gynrychioli ei gynulleidfa a bod yn hygyrch o'i hanfod, mae'r cwestiwn o bwy sy'n gwneud y gwaith yn allweddol. Mae'r adroddiad yn edrych ar gyfleoedd cynhwysol i wneuthurwyr theatr unigol yn hwyrach yn yr adroddiad, ond mae angen cydweithredu'n agosach o'r cychwyn, ymrwymiad i newid, ac arian, er mwyn gwneud theatr gynhwysol, a mynd â'r gwaith ar daith, yn gywir.

"Mae'n ddefnyddiol iawn i roi llaw ar ysgwydd y lleoliad, gan fod mynediad wastad yn rhywbeth llawer yn fwy, a mwy cymhleth, nag y mae pobl yn ei sylweddoli. Felly mae cynnal y sgwrs gychwynnol honno trwy gynrychiolydd, trwy asiant dros newid, yn bwysig iawn."

"Dyma enghraifft - rydych chi wedi bod yn creu sioe ers chwe wythnos a byddwch chi'n mynd i'r llwyfan ymhen pythefnos, ac rydych chi'n meddwl, cachu, dydyn ni ddim wedi meddwl am sgrindeitlo neu BSL neu sainddisgrifio neu deithiau cyffwrdd neu berfformiadau hamddenol, unrhyw beth felly. Felly mae gyda chi gyfnod byr iawn i'w trefnu, yr amser lleiaf posibl siŵr o fod. Os bysech chi'n newid y broses yn llwyr ac yn eu hystyried nhw o'r cychwyn, mae creadigrwydd y sainddisgrifio'n mynd i fod yn llawer mwy mynegol a chyffrous."

Astudiaeth Achos:

## Craidd

Er yn gelfyddyd gydweithredol, mae'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio theatr yng Nghymru yn aml yn awgrymu diffyg cydweithrediad - "*silos*" (yn hytrach na *theatres*) "*gatekeepers*" (*of opportunities*), "diffyg tryloywder" (o ran castio). Mae Craidd, Ramps Cymru yn flaenorol, yn ddatblygiad a anogodd partneriaeth a chydweithredu'n gywir, i bob golwg.

Mae Craidd yn gydweithrediad pedair blwyddyn rhwng pum sefydliad yng Nghymru: Theatr Clwyd, Theatr y Sherman, Pontio, Theatr y Torch a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Ei genhadaeth yw gwella cynrychiolaeth brif-ffrwd ar gyfer, a gyda phobl fyddar, anabl a niwrowahanol ledled Cymru. Mae hefyd yn anelu at ysgogi newid cadarnhaol yn ei sefydliadau partner ac yn y sector theatr ehangach. Mae'r gair 'Craidd' yn adlewyrchu uchelgais gwaith y bartneriaeth y bydd wrth graidd yr holl waith gwneud theatr.

Roedd cam cyntaf y cydweithrediad yn cynnwys cynnal archwiliad o bob sefydliad, trafodaethau sector, hyfforddiant eang, a diffinio map trywydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

"Mae Craidd yn fenter bwysig iawn inni ar y foment, un o'r pethau hynny sy'n cyflawni llawer o ddibenion, rhai ohonynt yn ddamweiniol. Ond un ohonyn nhw yw'r cydweithredu rhwng y cyrff creadigol cynhyrchiol hyn i wneud darn o waith bob blwyddyn ac i fynd â'r gwaith ar daith."

Gall hyn fod yn bwysig ar gyfer datblygu cynulleidfa. "Mae lleoliadau'n gyndyn i dderbyn gwaith am gyfnod hir gan nad ydyn nhw wedi'u darbwyllo y byddan nhw'n gallu gwerthu tocynnau. Ai'r rheswm yw bod cynhyrchiad yn mynd yno un flwyddyn, ond wedyn ddim yn dychwelyd am bedair blynedd... sut ydych chi'n dangos cysondeb yn y cynnyrch? Gobeithio y byddan nhw'n gweld sioe gyntaf Craidd yn '26, ac wedyn yn '27 gallwn ni ei nodi fel - welsoch chi hwn y llynedd, a dyma'r un nesaf."

"Yn Lloegr, mae gyda chi'r hyn a gyfeirir atyn nhw fel y 12 neu 13 o theatrau cynhyrchu, sydd â nodau ac amcanion a gwerthoedd tebyg iawn. Ac wedyn rydych chi'n dod i Gymru ac yn cydnabod bod y theatrau cynhyrchu sy gyda ni ar raddfa wahanol iawn. Fel rhan o gynllun Craidd... mae yna ddigon o debygrwydd rhyngon ni i'n galluogi ni i weithio gyda'n gilydd i gydnabod a cheisio mynd i'r afael â'r gwahaniaethau er mwyn cyflawni ein nodau cyffredin."

## iv. Theatr genedlaethol

Mae'r cwestiwn o rôl theatr genedlaethol yng Nghymru'n cyflwyno croestoriad cymhleth o hunaniaeth ddiwylliannol, datblygiad artistig a seilwaith sefydliadol. Er bod Cymru'n cynnal elfennau gwahanol a allai ffurfio fframwaith theatr genedlaethol ar hyn o bryd – gan gynnwys lleoliadau ffisegol, rhaglenni datblygu artistiaid, a gofodau perfformio gwahanol sy'n cefnogi gwaith traddodiadol a gwaith safle-benodol – mae absenoldeb cwmni theatr Saesneg cenedlaethol dynodedig wedi'i ariannu'n llawn yn codi ystyriaethau pwysig ynghylch cynrychiolaeth ddiwylliannol a gweledigaeth artistig.

Fel y dywedodd un cyfrannwr, "I genedl heb wladwriaeth fel Cymru, mae creu sefydliadau cenedlaethol yn rhan anochel bron o'r frwydr barhaus i sefydlu hunaniaeth, fel arfer yng nghysgod cymydog llawer mwy o faint neu fwy pwerus."

Crëwyd dau sefydliad theatr cenedlaethol yng Nghymru ar ddechrau'r 21ain ganrif. Theatr Cymru (Theatr Genedlaethol Cymru ar y pryd), yn cynhyrchu gwaith Cymraeg oedd y gyntaf, a lansiwyd yn 2003. Lansiwyd National Theatre Wales (NTW) i gynhyrchu gweithiau Saesneg ar gais y Cyngor yn 2008. Roedd gan NTW rhaglen uchelgeisiol, gyda 12 o sioeau yn ei flwyddyn agoriadol, dan arweinyddiaeth John McGrath:

"Cawsom ein gwahodd i archwilio beth allai theatr genedlaethol Saesneg ei olygu yng Nghymru. A'r hyn a ddarganfuom oedd bod traddodiad enfawr o waith safle-benodol yng Nghymru, ynghyd â chelfyddyd y gellid ei hyrwyddo fel rhywbeth unigryw i'r wlad. Y sylfaen ddamcaniaethol oedd meddwl am genedl a theatr yn nhermau lle a rennir a gofod a rennir."

Roedd datganiad cenhadaeth cychwynnol NTW yn nodi y byddai'n gwmni "hael", a chwaraeodd rôl yn y gwaith o gynorthwyo dwsinau o artistiaid trwy gynlluniau datblygu fel *Wales Lab a Summer Camp*, ac ariannu prosiectau ymchwil yn uniongyrchol.

Cafodd NTW cyfarwyddwyr artistig a chadeiryddion newydd oherwydd newidiadau i bersonél ac i aelodau'r bwrdd. Roedd y pandemig yn ergyd drom i'r cwmni, fel gweddill y sector theatr, ond beirniadwyd y cwmni hefyd oherwydd ei gyfeiriad, ei allbwn ac yn y pendraw, ei diffyg o ran gwneud theatr gan gwmni theatr. Wedi i'r cwmni fodoli ers pymtheng mlynedd, methodd cais National Theatre Wales i Adolygiad Buddsoddi'r Cyngor yn 2023, a chollodd ei arian craidd.

O ganlyniad, daeth TEAM (elfen y cwmni a yrrwyd gan y gymuned, gweler yr astudiaeth achos) i'r amlwg fel endid annibynnol ochr yn ochr â gweledigaeth genedlaethol, 'prif lwyfan' newydd ar wahân. Esboniodd Sharon Gilburd, cyd-gadeirydd NTW, yr ysgogiad dros wneud hyn:

"Gan ddiystyru beiau a rhinweddau NTW ei hun, mewn egwyddor, roedd y wlad yn cytuno ac yn cefnogi'r rhan honno o seilwaith cenedlaethol, ac ers gwneud y penderfyniad ariannu, mae'n gadael bwlch yn ecosystem ddiwylliannol Cymru.

"Ceir llawer o sensitifrwydd y byddai cael theatr cenedlaethol Saesneg rhywsut yn dibrisio'r gwaith y mae theatrau eraill yn ei wneud. Caiff hyn ei fynegi'n wael o dro i dro, yn gwneud cymariaethau, ond nid dyna'r bwriad yn bendant. Mae Cymru'n haeddu, a dylai gael theatr cenedlaethol y mae'n falch ohono, a chynnyrch y gellid ei allforio, yn yr un ffordd ag y mae Lloegr a'r Alban yn ei wneud.

"Dwi'n cydnabod bod gennym her i'w wynebu a bydd rhaid inni frwydro'n galed o ran ariannu a chynaliadwyedd. Fodd bynnag, rydyn ni eisoes yn cynllunio ar gyfer ein cynhyrchiad cyntaf, a bydd y gwaith yn siarad dros ei hun yn y pendraw, gan gynhyrchu gwerthiannau tocynnau ac ansawdd gwaith a all creu budd economaidd i Gymru trwy fod yn hyfyw yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Os nad oedden ni'n teimlo bod bwlch ar gyfer theatr cenedlaethol Saesneg yng Nghymru, fyddwn ni ddim yn gwneud yr hyn a wnawn. Bydd gan bopeth a wnawn naws sy'n amlwg o Gymru, gan gynnwys ein pobl, a fydd yn gyfuniad o bobl o Gymru, pobl wedi'u lleoli yng Nghymru a phobl sydd wedi ymrwymo i'r celfyddydau yng Nghymru, gan gynnwys mynd allan i gymunedau a chwilio am bobl ledled Cymru sydd wirioneddol eisiau gweithio yn y celfyddydau, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu talent ar gyfer ein dyfodol. Mae wedi bod yn anodd cyrraedd y pwynt hwn hyd yn oed, ond allwn i ddim bod yn fwy cyffrous i'r dyfodol."

Daeth y cyhoeddiad cyhoeddus am y Welsh National Theatre newydd yn ystod yr adolygiad hwn ym mis Ionawr 2025. Dywedodd y sylfaenydd

Michael Sheen: "Dyma wawr newydd i theatr yng Nghymru. Byddwn yn gartref i'n talentau mwyaf, gan ddod â nhw at eu gilydd i greu theatr uchelgeisiol sy'n gwireddu ein stori genedlaethol. Dyna beth ddylai theatrau cenedlaethol ei wneud."

Mae sawl ffurf wahanol posibl i theatrau cenedlaethol (gweler enghreifftiau yn Atodiad 5). Cyn lansio WNT, nododd y cyfweliadau gefnogaeth gryf i ymagwedd integredig tuag at theatr cenedlaethol yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn dadlau o blaid cwmni unedig a fyddai'n llifo'n hawdd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

"Os oes gennych un Theatr Cenedlaethol i Gymru, ond dau frand ar wahân i'r cyhoedd, ond yr un sefydliad yw hi, efallai y bydd mwy o gydlyniad, cysondeb a budd, a bydd mwy o bobl yn cyrchu ac yn mwynhau'r gwaith Cymraeg. Yn bersonol, dw i ddim yn credu y byddai hynny'n fygythiad i lesiant a dathliad y Gymraeg y mae'r Theatr Genedlaethol (Theatr Cymru bellach) yn bodoli i'w gwasanaethu."

"I mi, mae Theatr Genedlaethol i Gymru yn gwmni amlieithyddol sy'n gweithredu ledled y wlad. Flynyddoedd yn ôl, roedd gennych chi ysgrifenwyr Cymraeg, ysgrifenwyr Saesneg – nawr mae pobl yn ysgrifenwyr dwyieithog. Mae hefyd yn rhan o arloesi'r ffordd y byddwn ni'n cyfathrebu a sut mae iaith yn gweithio a sut mae iaith yn gweithio yng Nghymru. Ac mae'n rhywbeth sy'n gwneud Cymru'n hollol unigryw. Byddai cwmni dwyieithog sy'n gweithio ar y raddfa honno, yn gyffrous yn fyd-eang."

Yn absenoldeb cwmni theatr cenedlaethol Saesneg a ariennir yn llawn, gellir awgrymu bod gennym gydrannau theatr cenedlaethol. Mae'r cydrannau hynny'n cynnwys y seilwaith ffisegol o adeiladau, cyfleoedd datblygu artistiaid, ynghyd â gweithio ar raddfa fwy, gan gynnwys gwaith safle-benodol.

"Mae'r holl bethau sydd eu hangen ar gyfer Theatr Genedlaethol – yr ymdrech, diwydiant neu ddyfais – o dan ein trwynau. Y cyfan sydd angen arnom ei wneud yw eu cysylltu, ac mae ar bobl angen ceisio bod yn llai hunangeisiol fel sefydliadau neu artistiaid. Dyna pryd bydd pethau'n mynd yn anodd iawn pan fo arian yn brin."

"Mae unrhyw gwmni yng Nghymru sy'n cynhyrchu gwaith o ansawdd y mae cynulleidfaoedd yn dod i'w weld yn Theatr Genedlaethol, oherwydd rydych chi'n teithio o amgylch y genedl ac rydych chi'n cynrychioli'r genedl."

## Astudiaeth Achos:
# TEAM

Un o gydrannau gwahaniaethol y National Theatre Wales cynt oedd NTW TEAM, a gynorthwyai'r cwmni craidd i ymestyn ei gyrhaeddiad, datblygu ei gynulleidfaoedd, ymgysylltu â chymunedau a darparu llwybrau ar gyfer artistiaid y dyfodol.

Mae TEAM yn ymrannu ei hun o gwmni National Theatre Wales i fod yn elusen annibynnol. Ei nod yw datblygu model lle gall cydweithredu â chwmnïau (ac adeiladau) theatr arall er mwyn cydweithredu ar gynyrchiadau lleol a chynyrchiadau teithiol, a chreu ei chynyrchiadau ei hun hefyd. Gan weithio ar draws y sectorau, mae TEAM yn bwriadu gweithio mewn ymateb i fentrau llywodraethol, gan geisio creu cysylltiadau â'r trydydd sector, gofal iechyd, addysg, a'r sector elusennol. Trwy annog cysylltu, a thrwy rannu cyfoeth y sector diwydiannol yn eang, bydd TEAM yn gweithio i sicrhau y bydd is-set ehangach o bobl yn gallu cyrraedd y celfyddydau. Mae uchelgais i'r dyfodol yn cynnwys allforio model TEAM yn fyd-eang.

## v. Maint yr uchelgais

"Credaf fod Cymru'n wlad uchelgeisiol iawn. Dydyn ni jyst ddim yn cael digon o arian a does gennym ni ddim digon o adnoddau. Dwi'n credu bod yr uchelgais yno."

Gellir dehongli "gweithio ar raddfa" mewn ffyrdd gwahanol. Gall olygu, er enghraifft, rhediad 26 o wythnosau o cyd-gynhyrchiad Housemates gan Hijinx Theatre/Sherman, sioeau wedi gwerthu allan yn Theatr Donald Gordon yng Nghanolfan Mileniwm Cymru (1,900 o seddi) neu lif parhaus o aelodau cynulleidfa hen a newydd yn mynychu Posh Club cwmni *Common Wealth* yn nwyrain Caerdydd.

Cododd y cwestiwn o sut allai'r Cyngor gefnogi'r broses o wireddu prosiectau ar raddfa fwy sawl gwaith yn yr Adolygiad.

## vi. Gwaith safle-benodol

Un ffordd o gyflawni gweithiau ar raddfa fwy yw cynyrchiadau safle-benodol. Gwelwyd llawer o weithiau uchelgeisiol yn ystod blynyddoedd cynnar National Theatre Wales fel *The Passion*, a fynychwyd gan 12,000 o bobl ym Mhort Talbot; *The Persians*, a lwyfannwyd ar faes tanciau ar Fynydd Epynt; a *Mametz*, a drawsnewidiodd darn o gefn gwlad Cymru yn gyflafan y Rhyfel Byd Cyntaf.

"Yn bersonol, pan fyddwn ni'n sôn am raddfa, os ydych chi'n gwneud darn o waith sy'n wirioneddol safle-benodol neu'n waith a lywiwyd gan safle, rydych chi fel y crëwr wedi ystyried yr amgylchedd ffisegol a'r hyn y bydd eich cynulleidfa yn ei brofi. Allwch chi ddim cael graddfa fwy na mynydd. Os ewch chi â chynulleidfa at fynydd, mae hynny'n raddfa fawr."

Yn aml bydd theatr safle-benodol yn addas ar gyfer penblwyddi a digwyddiadau mawr fel cynhyrchiad Marc Rees yn Abertawe o *Now the Hero/Nawr yr Arwr* yn coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf, a *Patagonia*, y cyd-gynhyrchiad cyntaf rhwng NTW a Theatr Genedlaethol yn dathlu 150 o flynyddoedd ers glanio'r *Mimosa* yn ne America. Mae rhai theatrau fel Theatr Clwyd wedi creu gwaith safle-benodol a ymgysylltodd â'r gymuned, fel perfformiad promenâd *Mold Riots* yn 2019, ond mae'n annhebyg y bydd yn gwneud gwaith tebyg eto ers adnewyddu eu cyfleusterau dan do. Cafodd gwaith safle-benodol mwy diweddar ei greu mewn ymateb i'r cyfleoedd ariannu sy'n bodoli, megis *GALWAD*, prosiect cenedlaethol Cymru fel rhan o UNBOXED, gŵyl Creativity in the UK.

### Astudiaeth Achos:
# Olion

Llwyfannwyd yr enghraifft fwyaf diweddar o waith safle-benodol yn ystod cyfnod yr adolygiad, ym mis Hywdref 2024.

Roedd *Olion* ym Mangor yn gynhyrchiad Cymraeg hybrid gan gwmni Frân Wen, a gyfunodd gwaith mewn theatr gonfensiynol, cydran safle-benodol, ac elfen ffilm. Ariannwyd y cynhyrchiad gan Gronfa Ffyniant Bro y DU.

"Bu chwedleuwyr yn gweithio gyda ni am ddwy flwyddyn, cyn i gast cymunedol o 30 adrodd y stori honno. Ar yr un pryd, ymgasglodd 100 o bobl ifanc i greu diweddglo yn yr awyr agored, a fynychwyd gan 1,000 o bobl. Roedd yn cynnwys llawer o'r elfennau y mae cwmni fel y Frân Wen yn gallu eu gwneud o fewn un prosiect ar raddfa fwy. Ac roedd y gair "graddfa'n" bwysig iawn imi pan oedden ni'n rhoi Olion at ei gilydd, oherwydd heb y raddfa honno, doedd hi ddim yn bosib bachu'r holl bobl wahanol a'u cyffroi am uchelgais y prosiect."

Mae pryder na fydd llawer o gyfleoedd ar gyfer gwaith safle-benodol ar raddfa fawr ar gael yn y dyfodol: "Mae wedi bod yn llawer mwy anodd i wneud gwaith gwirioneddol safle-benodol yng Nghymru ers y 2000au cynnar oherwydd ofn ariannol. Roedd lleoliadau'n arfer bod yn awyddus i gyd-gynnal gwaith safle-benodol. Erbyn hyn, maen nhw llawer llai parod i'w wneud yn rhannol gan nad oes ganddynt y staff, yr egni na'r arian, ond hefyd oherwydd y ffordd caiff pethau eu hariannu. Mae'r byd yn teimlo mor gystadleuol. Mae'r celfyddydau yn gyffredinol yng Nghymru a Lloegr wedi troi'n diriogaethol iawn. Mae'n anodd iawn i ddod o hyd i waith ar raddfa fwy."

Fodd bynnag, mae rhai cyfleoedd ar y gorwel, fel cais Wrecsam i fod yn Ddinas Ddiwylliant 2029. Petai'r cais yn llwyddiannus, gallai gwaith safle-benodol, uchelgeisiol fod yn ychwanegiad deniadol, ymgysylltiol i gynnig diwylliannol y ddinas. Mae syniad ar gyfer gŵyl uchelgeisiol o theatr safle-benodol yn y ddinas a fyddai'n cynnwys llawer o bartneriaethau rhyngwladol yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

# 3b.
# Ariannu Cynhyrchu a Theithio

**Er mwyn cefnogi'n well y gwaith o ddatblygu syniadau creadigol er mwyn gwireddu eu potensial llawn – gan gynnwys y rhai ar raddfa fwy – a mynd i'r afael â rhai o'r heriau ynghylch cynhyrchu a theithio a godwyd, mae angen ailymweld â sut caiff arian y Cyngor ei strwythuro. Mae hefyd angen edrych y tu hwnt i'r Cyngor i ddenu ffynonellau eraill o arian.**

## i. Arian Creu Cyngor Celfyddydau Cymru

Cronfa Creu yw'r prif lwybr ar gyfer cefnogi prosiectau yn y sector theatr. Yn gyffredinol, mae sefydliadau'n gwneud cais ar gyfer camau gwahanol o'r prosiect, megis ymchwil a datblygu, cynhyrchu a theithio. Gall unigolion ymgeisio hefyd (byddwn yn edrych yn fanylach ar gymorth i unigolion yn hwyrach yn yr adroddiad).

### Ymchwil a datblygu i gynhyrchu: grantiau bach a mawr

Ar hyn o bryd, gellir cyflwyno cais am *grant bach* (hyd at £10,000) i gronfa Creu ar unrhyw adeg. Yn aml, hwn bydd man cychwyn gwaith ymchwil a datblygu cynhyrchu theatr, ond nid bob tro.

Ceir nifer o ddyddiadau cau ar draws y flwyddyn am *grantiau mawr* (rhwng £10,000-£50,000), sy'n agored i brosiectau ymhob celfyddyd, gan gynnwys cynyrchiadau theatr.

**Byddai pennu dyddiad/au cau wedi'u teilwra ar gyfer ceisiadau am *grantiau mawr* o ran gwaith cynhyrchu theatr yn golygu y gellid edrych ar geisiadau yn eu cyfanrwydd**. A byddai'r llinell o'r cam datblygu i'r cam ymchwil yn fwy clir os yw prosiect wedi'i ddatblygu ar hyd y llwybr hwn.

Mae ymchwil a datblygu hefyd yn ffordd allweddol i wneuthurwyr theatr ddatblygu eu harferion creadigol. Rydym yn ystyried hyn yn hwyrach yn yr Adolygiad.

### Arian ar raddfa fwy

Ar hyn o bryd, caiff sefydliadau ymgeisio i'r Cyngor am hyd at £100,000 o arian Creu mewn amgylchiadau eithriadol trwy gytundeb ymlaen llaw. I wneud cais, rhaid i sefydliadau ddangos bod ganddynt bartneriaethau clir, bod y cais yn arwyddocaol yn genedlaethol, yn ymwneud â phroses creu neu deithio gyda'r gwaith, a bod ganddo'r potensial i effeithio ar gymunedau'n arloesol a dychmygus.

Yn ystod y broses adolygu, roedd yn amlwg bod llawer o brosiectau theatr uchelgeisiol yn diwallu'r meini prawf uchod, ond maent yn anodd eu datblygu ymhellach oherwydd y capiau ariannu, cyfyngiadau a phrinder cyllid arall.

Gallai modelau gwneud theatr mwy uchelgeisiol bod yn debyg i rai yn Iwerddon lle, ers degawd, mae'r Cyngor Celfyddydau wedi defnyddio **system haenog o Ddyfarniadau Cynhyrchu Theatr** i annog gwaith uchelgeisiol ar raddfa fawr: "Mae'n ceisio pwysleisio'r pwynt ein bod ni'n rhoi'r arian hwn i artistiaid er mwyn iddynt greu celf er budd y cyhoedd. Felly rydyn ni wir yn annog cwmnïau ac artistiaid i feddwl am waith ar raddfa fawr. Mae'n ddiddorol nad yw llawer o artistiaid yn derbyn yr her. Ac felly, pan fyddwn ni'n derbyn ceisiadau da, maen nhw'n geisiadau da iawn. Beth sy'n ddiddorol yw bod nifer ohonynt dal ddim yn canolbwyntio digon ar reswm y gynulleidfa dros weld y gwaith hwn? Dw i'n meddwl y broblem weithiau

yw eu bod yn meddwl, os ydw i ond yn meddwl am y gynulleidfa, dw i'n bradychu theatr, dw i jyst yn bod yn fasnachol. Ond rydyn ni wastad yn ceisio addysgu ymgeiswyr i ddweud na, mae'n gallu bod yn theatr a arweinir gan gelf hefyd. Gall fod yn ddull arbrofol, neu o leiaf arloesol, ond mae dal angen iddo fachu'r gynulleidfa... Mae hefyd yn gyfle i ymgeiswyr tro cyntaf, neu rai ar ddechrau eu gyrfa, i gael cyllidebau cynhyrchu digonol, a gwneud gwaith ar raddfa."

Gallai un **llwybr at gynyrchiadau a phrosiectau theatr rhwng £100,000 a £500,000**, (gyda haenau rhyngddynt o bosib), fod yn opsiwn i annog uchelgais a gwaith ar raddfa. Gellid cynnwys meini prawf fel datblygu cynulleidfa er mwyn helpu i roi canolbwynt i'r gwaith penderfynu, gan ganiatáu i'r Cyngor gynnwys y bobl gywir er mwyn helpu'r broses o gymharu ceisiadau.

Gallai cynllun newydd Arts Council England, Incentivising Touring: Repayable Grants for Theatre fod yn fodel ariannu posibl ac ychwanegol arall. Nod y cynllun yw **lleihau risg mynd â chynyrchiadau mawr ar daith ledled y wlad** drwy gynnig grantiau ad-daladwy gwerth hyd at 25% o gostau cyfalafu cynhyrchiad, hyd at fwyafswm o £500,000. Gofynnwyd am y math hwn o drefniant ariannu yng Nghymru, er enghraifft yn achos sioe gerdd *Home, I'm Darling* Theatr Clwyd, a aeth i'r West End. Yn y pendraw, bu rhaid i'r cwmni ddefnyddio'i gronfeydd arian ei hun. Gallai fod gwerth i archwilio model ACE yng Nghymru, ac i asesu'r galw posibl amdano.

Astudiaeth Achos:

## National Theatre, War Horse a Nye

**Un o'r enghreifftiau cynhyrchu incwm mwyaf amlwg yw cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Prydain Fawr o *War Horse* gan Michael Morpurgo. Bu'r cynhyrchiad, a oedd yn cynnwys pypedau arloesol, yn rhedeg am saith blwyddyn gan gynhyrchu incwm mawr i'r Theatr Genedlaethol – £13.5 miliwn erbyn cau'r sioe yno yn 2015.**

Enghraifft fwy diweddar yw cynhyrchiad Canolfan Mileniwm Cymru/Theatr Genedlaethol Prydain Fawr o *Nye* gan Tim Price, wedi'i gyfarwyddo gan Rufus Norris. Treuliwyd deg blynedd yn creu *Nye* a gwerthwyd pob tocyn ar gyfer nifer o berfformiadau. Roedd 30% o'r gynulleidfa yn bobl nad oeddent fel arfer yn mynd i'r theatr, gan gynnwys cynrychiolwyr o 29 o wledydd ar draws y byd (heb gynnwys gwledydd y DU). Mae hyn yn awgrymu potensial o ran twristiaeth a mewnfuddsoddi. Elfen hanfodol o'r ddrama oedd bod Michael Sheen yn chwarae'r brif ran:

"Dangosodd fy mhrofiad o wneud *Nye* bod cynulleidfa yno, yn bendant, ond yn amlwg mae angen dangos y gwaith cywir er mwyn i'r cynulleidfaoedd ddod. Roedd perfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm yn brofiad anhygoel, a wnaeth imi feddwl pam nad oeddwn i'n gwneud hynny'n fwy aml, pam nad yw pobl eraill yn gwneud hyn yn fwy aml? Roedd galw mawr am waith ar y raddfa honno gyda'r math o gynhyrchiad roedden ni'n ei wneud, oedd â chymaint o gysylltiad gyda'r gynulleidfa yng Nghymru. Felly roedd y profiad yn un dadlennol imi.

"Felly meddyliais fod rhaid i hyn fod yn rhan o'r hyn a wnawn. Os ydyn ni eisiau bod yn uchelgeisiol ac eisiau creu ein gwaith ein hunain ar lefel byd-eang, a denu actorion o du allan, dylai hynny fod yn un o'n harfau. Roedd yn amlwg nad oedd ysgrifenwyr yn cael eu hannog i ysgrifennu ar y lefel hwnnw."

Cafodd Nye ei sgrinio'n llwyddiannus mewn sinemâu hefyd, a bydd yn cael ei lwyfannu eto yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn ystod 2025.

## ii. Ffynonellau arian eraill

Mae'n amlwg y bydd angen i gyfuniad o ffynonellau arian fod ar gael i sicrhau sector cynaliadwy.

### Sefydliadau, elusennau a rhoddion dyngarol

Mae ffynonellau arian y tu allan i'r Cyngor yn fwyfwy gystadleuol, a cheir llawer o enghreifftiau anecdotaidd o'r galw anferth a wynebir gan sefydliadau megis Paul Hamlyn. Ond mae rhai gwneuthurwyr theatr yn awgrymu nad yw Cymru'n cyflwyno ceisiadau digon gweledigaethol i ddenu dyfarniadau sylweddol gan sefydliadau tebyg.

Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, dylid cynnig hyfforddiant ar gyfer ymgeisio am arian, cyfleoedd i gwrdd â'r arianwyr ynghyd ag ymgeiswyr llwyddiannus sy'n gallu rhannu eu profiadau, ac annog cyfarfodydd â dyngarwyr diwylliannol.

### Agwedd fwy masnachol

Yn ei erthygl yn *Nation.Cymru* yn 2022, awgrymodd un o brif ddramodwyr Cymru, Gary Owen, newid mewn agweddau a fyddai'n helpu i theatr Saesneg gynnal ei hun yng Nghymru:

"Meddylfryd ein cwmnïau theatr sy'n derbyn cymhorthdal yw mai dim ond cost yw cynhyrchu sioe. Nid yw byth yn gyfle i wneud arian a thyfu'r sector.

Nid oes unrhyw ddiwylliant theatr lwyddiannus yn gweithio fel hyn. Er enghraifft, os edrychwch chi ar y *National* yn Llundain, ar RSC yn Stratford, mae'n drefn arferol o'u strategaeth y bydd rhai sioeau'n costio arian, bydd rhai sioeau'n ennill eu harian yn ôl, a bydd rhai sioeau'n cynhyrchu incwm i'r cwmni, yn aml am flynyddoedd lawer."

Gellid annog newid tebyg trwy gomisiynu dramâu newydd i'r brif lwyfan yn y Sherman dywedir, yn hytrach nag ar gyfer gofodau stiwdio. Byddai hyn yn annog ysgrifenwyr i freuddwydio. Dyma fwriad cwmni Grand Ambition yn Abertawe, er ei fod yn derbyn nad yw hwn ond yn uchelgais tymor canolig, sy'n galw am dyfu'r gynulleidfa a chadw'r gynulleidfa wrth iddynt fwrw ati.

Teimlai eraill na ddylid bod ofn sioeau sy'n cynnwys perfformwyr enwog, oherwydd y gallant helpu i dalu am waith arall a'i gynnal. Roedd pobl hefyd o blaid edrych am gyfleoedd i deithio rhwng theatrau fel Glan yr afon, Sherman a Bristol Old Vic, ynghyd â dechrau trafodaethau gyda chynhyrchwyr masnachol.

Yng Nghymru, mae hyn yn golygu'r New Theatre yng Nghaerdydd yn y bôn. Mae'r theatr dan berchnogaeth grŵp Trafalgar, a hi yw'r 'unig theatr fasnachol rhwng Caerfaddon a Cork' sydd 'newydd sicrhau arian grŵp i ddatblygu a chynnal rhaglen lleoli a datblygu cynulleidfa ar gyfer drama.'

Cymaint yw twf cynulleidfa ddrama'r New Theatre, mae'n gallu llwyfannu dramâu newydd am bum wythnos yn olynol. Yn hanesyddol, mae'r New Theatre wedi croesawu cynyrchiadau Theatr Clwyd a byddai'n hoffi'r cyfle i ddatblygu ei harlwy o waith Cymraeg trwy groesawu'r cwmni yno unwaith eto, er y byddai angen talu cymhorthdal cyhoeddus i wneud hynny. Mae yma gyfleoedd amlwg i'w harchwilio, gan wthio yn erbyn drws llwyfan agored, fel petai.

Mae'r amser hir a dreulir yn paratoi gweithiau mawr tebyg yn pwysleisio'r angen i feddwl am ddarparu theatr yn strategol a chydredol yn yr hirdymor. Enghraifft arall yw sioe gerdd *Branwen* Canolfan Mileniwm Cymru, a ysbrydolwyd gan y Mabinogi ac a ysgrifennwyd gan Seiriol Davies. Wedi ei gyd-gynhyrchu gan Frân Wen, gwerthodd y sioe 16,000 o docynnau ledled Cymru, ond treuliwyd pum mlynedd yn ei datblygu. Mae cymaint o enghreifftiau lle mae theatr yn broses hir:

"Mae sioeau ar y raddfa hon ac o'r ansawdd hon yn gallu digwydd, ond dim ond trwy gydweithredu. Fyddai Canolfan Mileniwm Cymru ddim yn gallu llwyfannu *Nye*. Ddim nawr. Ddim eto… Beth sydd mwyaf defnyddiol yw gwybod sut y cyrhaeddodd hi yna, a beth sydd angen arnoch ei rhoi yn y peiriant, yn y ffactri, er mwyn ichi wneud gwaith gwell a gwell ar bob math o raddfa wahanol. Mae Nye yn dangos bod modd ei wneud."

O edrych ar enghreifftiau llwyddiannus, ceir diffyg cynrychiolaeth hyd yma o ran cyfleoedd i wireddu gwaith uchelgeisiol. Ni ddylai theatr masnachol neu fuddsoddi mewn gwaith ar raddfa atgyfnerthu

anghyfartaledd o ran rhywedd sy'n bodoli eisoes, na rhagfarnau eraill a welsom yn hanesyddol. Dylai unrhyw gyfle i gefnogi gwaith ar raddfa a/neu sydd â photensial masnachol geisio mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn gadarnhaol. Mae hyn yn galw am weithredu'n fwriadol yn ystod pob cam o'r broses – o gomisiynu i farchnata a theithio.

## Argymhellion: Cynhyrchu a Theithio

Argymhelliad 4:
Sefydlu amserlenni ariannu penodol ar gyfer cynhyrchu theatr

Argymhelliad 5:
Creu cronfa ddatblygu theatr newydd ar gyfer gwaith ar raddfa fwy (£100,000 – £500,000)

Argymhelliad 6:
Edrych ar fodel grantiau ad-daladwy ar gyfer teithio

Argymhelliad 7:
Cefnogi sefydliadau celfyddydol i wella eu cyfraddau llwyddiant gydag ymddiriedolaethau a sefydliadau

# 3. Datblygu Cynulleidfaoedd

Mae'r gwaith o adfer cynulleidfaoedd ar ôl y pandemig yn parhau i fynd rhagddo. Yn ogystal â chydnabod effaith barhaus costau byw, mae'n bwysig hyrwyddo gwaith mudiadau fel We Shall Not Be Removed ac ail-adeiladu sector theatr sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd eang, gan fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad.

"Mae adeiladu cynulleidfaoedd yn cymryd amser, ac mae angen arnoch gynnyrch rheolaidd, ac mae'n rhaid ichi fod yn gyson fel bod pobl yn arfer â dod i weld drama, mae angen y cysondeb yna arnoch, mae angen digon o gynnig iddynt, felly dyw un ddrama'r tymor gallan nhw naill ai ddod i'w gweld neu ddim, dyw hynny ddim yn ddigon. Mae angen cynnig eang arnoch."

"Mae angen i'r broses gyfan o greu a chynhyrchu theatr yng Nghymru ganolbwyntio llawer mwy ar y gynulleidfa. Ein prif reswm dros wneud theatr yw defnyddio'r rhannau hynny o'r dychymyg, pennau a chalonnau'r bobl yn y gynulleidfa, i wneud iddynt feddwl tu hwnt, nid i wneud iddynt feddwl oddi mewn. A dw i'n teimlo hyn yn ddiffuant, dw i'n credu'n llwyr yn yr hyn ddywedodd Peter Brook bod theatr da yn daith o'r cyffredin i'r arbennig. Ac mae'n dweud os ydych chi'n aros yn y cyffredin, mae gennych theatr ddiflas, ac os ydych chi'n treulio'ch holl amser yn yr arbennig, mae gennych theatr sy'n fursennaidd ac yn hunanystyriol."

Astudiaeth Achos:

# Posh Club

**Mae'r Posh Club yn de prynhawn llawn byd adloniant a dawnsio i bobl hŷn urddasol a soffistigedig, a gynhelir yng nghalon y gymuned sef Canolfan Gymunedol Hyb Llaneirwg, sy'n cael ei thrawsnewid yn lleoliad crand. Mae pob digwyddiad yn de prynhawn 'posh', tafod yn y boch o'r 1940au, sy'n cynnwys tri pherfformiad o'r byd adloniant, gweinyddion mewn gwisgoedd 'tei du', llestri o dras a chabaret.**

Esboniai Rhiannon White o gwmni Common Wealth:
"Cynaliasom y Posh Club cyntaf adeg Nadolig 2023. Gwnaeth dau aelod o'r gynulleidfa, Linda ac Alan, gwrdd am y tro cyntaf yn ystod ein perfformiad cyntaf. Daethant i'r drydedd sioe ar ddêt, ac maen nhw gyda'i gilydd hyd heddiw."

"Yn ystod y tri diwrnod, daeth mwy na 450 o bobl i Hyb Llaneirwg wedi'i drawsnewid, i brofi cabaret arbrofol o ansawdd. Oherwydd y galw mawr, a gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Gyda'n Gilydd Llaneirwg a Trowbridge, roeddem yn gallu cynnal rhaglen flwyddyn gyfan, Four Seasons of Posh Club, trwy gydol 2024.

Mae tocynnau Posh Club yn gwerthu allan ymhen oriau o'u gosod ar werth – rydyn ni'n gwerthu hyd at 180 o docynnau i bob sioe. Mae'r perfformiad yn cynnwys tîm ymroddedig o westeiwyr gwirfoddol a 5-6 artist perfformio, ynghyd â'n gwahoddwr lleol Li Harding sef Shirley Classy."

Mae Common Wealth yn sefydliad sy'n derbyn arian amlflwyddyn, a sefydlwyd *The Posh Club* fel sefydliad ar wahân a wnaeth cais llwyddiannus i gronfa Creu am bron £50,000.



## i. Patrymau cynulleidfa

Mae cynulleidfa theatr Saesneg yng Nghymru wedi bod yn ymadfer ers y pandemig. Mae cynulleidfaoedd yn dychwelyd, ond mae'r broses wedi bod yn araf ac nid yw'n cyd-daro â'r cynnydd yn y cynnig theatr. Yn gyffredinol, nid ydym wedi cyrraedd y lefelau cyn-Covid (gweler Atodiad 6 am ddata sefydliadau portffolio a ariennir). Mae'n bwysig nodi y bydd un cynhyrchiad theatr llwyddiannus ar raddfa'n gallu gwyro data, ond cadarnhawyd y patrwm hwn trwy'r adolygiad ar gyfer lleoliadau cyflwyno a chwmnïau teithiol.

Mae llwyddiannau wedi bod. Enghraifft gadarnhaol yw Theatr y Sherman yng Nghaerdydd. Cododd ei ffigurau cynulleidfa cyffredinol (fel canran o'r nifer seddi) yn 2023 yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Cododd cynyrchiadau "Made-at-Sherman" yn arbennig, o 67% o seddi i 75% o seddi, gan awgrymu twf yn hyder y gynulleidfa, ac os yw'r amodau'n iawn, mae cynulleidfaoedd ar gael.

## ii. Theatr i bawb

Mae mynediad a fforddiadwyedd yn parhau'n heriau allweddol i gynulleidfaoedd, ac i ryw raddau, maent yn esbonio eu dychweliad araf.

### Y prif faterion yw:
### Rhwystrau ffisegol ac ymarferol i fynediad.

Os oes gan rywun angen penodol o ran mynediad, nid yw mynd i weld gwaith yn rhwydd bob amser. Er bod llawer o adeiladau yn fwy hygyrch, mae angen ar lawer o bobl gymorth rhywun arall i fynychu, sy'n cynyddu costau, neu mae ganddynt gyflwr iechyd a/neu niwrowahanol sy'n golygu bod awyrgylch arferol theatr brysur yn ormod o risg, neu'n achosi gormod o straen iddynt i fod yn opsiwn.

"Mae problem fawr, nid yn unig yng Nghymru… Felly oes rhywbeth a allai helpu inni gwrdd â'r broblem hanner ffordd? Mae pobl wedi cael digon o ddigwyddiadau hybrid neu ddigwyddiadau dros Zoom."

Astudiaeth Achos:

## Hynt

**Mae cerdyn Hynt yn gynllun cenedlaethol yng Nghymru sy'n creu cynnig cyson gan theatrau a chanolfannau celfyddydol i bobl sydd arnynt angen cymorth cynorthwyydd neu ofalwr i fynd i'r theatr. Mae gan ddeiliad cerdyn Hynt yr hawl i docyn am ddim ar gyfer cynorthwyydd personol neu ofalwr ym mhob theatr a chanolfan gelfyddydol sy'n rhan o'r cynllun.**

Mae'r cynllun hwn yn cael ei ehangu ar draws y DU ac Iwerddon dan yr enw All In.

## Rhwystrau Ariannol.

Dangosodd y gwaith maes a gynhaliwyd ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol yng Nghymru mwyaf diweddar rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 bod '64% o oedolion (16+) yng Nghymru wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y 12 mis blaenorol.' Roedd 30% o'r rhain yn ddigwyddiadau theatr.

Mae gwaith dadansoddi sy'n defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos gwahaniaethau sylweddol o ran mynychu'r celfyddydau. Roedd 70% o'r boblogaeth yn y categori lleiaf amddifadus wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y 12 mis blaenorol, ond dim 58% o'r boblogaeth yn y categori mwyaf amddifadus a wnaeth.

Mae llawer o leoliadau yng Nghymru'n cynnig cyfleoedd 'talu'r hyn a allwch' i'r rheiny y gallai prisiau tocynnau fod yn rhwystr iddynt. Fodd bynnag, yn aml y **cynulleidfaoedd** iau a effeithiwyd arnynt fwyaf o beidio cael y cyfleoedd cyntaf hynny i brofi theatr.

Datblygiad diddorol yng Nghymru yn hyn o beth yw ap sy'n cael ei ddatblygu gan Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, o'r enw Pasbort Creadigol. Byddai person ifanc yn gallu defnyddio'r ap i nodi ei ddiddordebau ac i gofrestru. Byddai'n gallu gweld pa sefydliadau sydd yn agos iddo ac efallai defnyddio'r ap i ddefnyddio disgowntiau neu i ddod o hyd i docynnau am ddim mewn lleoliadau.

### Argymhellion: Datblygu Cynulleidfa

Argymhelliad 8:
Annog lleoliadau i gefnogi perfformiadau a addaswyd ar gyfer aelodau cynulleidfa a allai fod â chyflyrau sy'n eu hatal rhag mynychu lleoliadau theatr 'arferol'.

Argymhelliad 9:
Adeiladu ar arferion presennol, gan gynnwys y gronfa Ewch i Weld, er mwyn sicrhau y bydd pobl ifanc yn profi theatr yn gynnar.

Astudiaeth Achos:

## Mynediad i blant a phobl ifanc

Mae cronfa Ewch i Weld Dysgu Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru'n cynnig grantiau i athrawon sy'n eu galluogi i fynd â'u dysgwyr i ddigwyddiadau celfyddydol o ansawdd. Hefyd, mae Wonderfund yng Nghaerfaddon wedi dosbarthu dros 11,500 o docynnau am ddim i ysgolion a meithrinfeydd lleol ers 2021, gan ganiatáu i blant brofi theatr byw.

Yn yr Alban, gall pobl 14-26 oed neu'r rhai ar incwm isel gofrestru ar gyfer cynllun Theatre for a Fiver i gael tocynnau i gynyrchiadau Theatr Genedlaethol yr Alban ledled yr Alban am £5.

Mae gwledydd eraill yn Ewrop yn annog y celfyddydau i bobl ifanc mewn ffyrdd diddorol. Yn 2022, treialwyd cynllun yn Sbaen lle roedd ei dinasyddion 18 oed yn derbyn taleb gwerth €400 i'w gwario ar unrhyw beth â gwerth diwylliannol.

# 4. Artistiaid a Gwneuthurwyr Theatr

**Wrth reswm, mae ecoleg theatr iach yn dibynnu ar ei phobl, ac yn ei thro mae'n cefnogi dwsinau ohonynt. Mae sicrhau mynediad a chyfleoedd datblygu i'r holl rolau ar gyfer pobl o bob cefndir a phrofiad byw, yn hanfodol i gael sector sydd yr un mor gynhwysol ag y mae'n greadigol.**

## i. Actorion

Mae ansawdd talent actio Cymru'n adnabyddus ers amser hir, ac mae'r rhestr yn un hirfaith. Daeth llif o actorion byd-enwog o Bort Talbot yn unig. Mae Theatr Ieuenctid Gorllewin Morgannwg yn gysylltiedig â datblygu sêr y dyfodol ers amser hir, ac mae actorion o Gymru'n hyfforddi ledled y DU.

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yw'r unig *conservatoire* actio yng Nghymru, ond cafwyd gostyngiad yn y nifer y bobl o Gymru a gafodd eu recriwtio ganddo yn ddiweddar: "Dwy flynedd yn ôl, graddiodd grŵp lle roedd pump o'r 22 o actorion yn dod o Gymru yn y grŵp o israddedigion, ac roedd pedwar o'r rheiny'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r nifer honno wedi gostwng yn fawr, a dw i'n ceisio datrys beth sy'n digwydd o ran ein recriwtio yng Nghymru. Mae'n amlwg bod angen i rywbeth newid. Mae gennym efallai dau fyfyriwr o Gymru yn y flwyddyn gyntaf bresennol. Dyw hynny ddim yn ddigon. Rydyn ni'n trafod gyda nifer o ysgolion a cholegau ar draws Cymru lle byddwn ni'n cynnal gweithdai ac ati. Dw i'n gobeithio sefydlu cwrs sylfaen, cwrs cynradd mewn actio a theatr gerdd er mwyn ceisio ailgynnau'r gefnogaeth honno i bobl ifanc sy'n ystyried hyfforddiant ar lefel gradd. Does dim rhaid iddo fod yng Nghaerdydd. Unwaith bydd y cwrs sylfaen wedi'i sefydlu, does dim rheswm pam na allwn ni gael hybiau yn y gorllewin neu yn y gogledd."

Ar ôl iddo raddio, mae'r actor yn wynebu'r her o wneud bywoliaeth ac adeiladu gyrfa gynaliadwy. Mae Equity, yr undeb celfyddydau perfformio ac adloniant yn gofyn: "Sut allwch chi wneud gyrfa ohoni heb ichi orfod dibynnu ar swyddi lletygarwch a manwerthu, a'r holl bethau eraill er mwyn cynnal eich gyrfa? Dywedodd y cyn Brif Weinidog Carwyn Jones bod y sector creadigol yn fwy na ffermio yng Nghymru. Fyddech chi ddim yn meddwl hynny, gan fod modd cael ei wared bob tro mae problem yn codi. Dylai fod yn yrfa gynaliadwy. Po fwyaf o leoedd sy'n gallu cydweithredu i wneud mwy o ddefnydd o'r arian, gorau oll, ond does dim angen ychwanegu'r gair 'cenedlaethol' i'r enw er mwyn iddo fod yn ddiwydiant bywiog a chadarnhaol. Mae angen strategaeth arno, mae angen i'r adeiladau weithio gyda'r cynhyrchwyr llai o faint sy'n gallu cyrraedd mwy o leoedd."

Mae'r ateb yn ymwneud yn rhannol â'r ffaith bod arian yn amodol ar delerau undeb yr actorion: "Mae'r amodau y mae'r Cyngor yn eu gosod ar yr arian yn llawer mwy llym na ACE. Os ydyn nhw'n ariannu prosiect, rhaid i bobl ddefnyddio'r cytundebau undeb hynny. Os ydych chi'n cyflogi actorion, rhaid ichi dalu cyfraddau Equity. Ond pwy sy'n gwirio hynny? Sut ydyn ni'n gwirio y caiff yr arian ei ddefnyddio'n gywir, a bod pobl wir yn cael eu cyflogi ar sail telerau ac amodau'r undeb?

"Mae rhai yn symud tuag at y lleiafswm, a dyna'r cyfan y byddant yn ei gynnig. Nid oes unrhyw adlewyrchiad o brofiad... mae'n fwy o bwysau ar yr undeb mewn ffordd i sicrhau bod y lleiafswm cyn uched â phosibl. Weithiau caiff ei ddefnyddio fel targed, nid fel man cychwyn, sy'n golygu bod actorion profiadol yn derbyn yr un cyflog â rhywun sydd newydd raddio."

## ii. Cyfarwyddwyr

Ychydig o gyfleoedd a geir i gyfarwyddwyr yng nghanol eu gyrfaoedd yng Nghymru. Tynnwyd sylw at hyn yn yr adroddiad a gyd-awdurwyd gan Simon Harris a Bridget *Keenan sef Yn Fythol Dod i'r Amlwg? Adroddiad ar gyfarwyddo ar gyfer y llwyfan yng Nghymru* (2020). Nododd yr adroddiad bod llawer o gyfarwyddwyr yng Nghymru "yn teimlo pwysau i hunangynhyrchu a lansio eu cwmnïau eu hunain dim ond er mwyn cael mynediad at gyllid y loteri." Mae cipolwg cyflym ar y 75 o gwmnïau theatr sy'n derbyn arian prosiect y Loteri gan y Cyngor ar hyn o bryd yn awgrymu bod hyn yn wir o hyd.

Bydd un o'r datblygiadau ym maes cyfarwyddo theatr yn digwydd yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'r coleg yn gobeithio sefydlu gradd meistr dwy-flwyddyn mewn cyfarwyddo ar gyfer pedwar cyfarwyddwr drama a dau gyfarwyddwr opera, i gychwyn ym mis Medi 2025. Bydd y dysgu'n cael ei wneud yn fewnol yn y flwyddyn gyntaf, a bydd yr ail flwyddyn wedi'i rhannu rhwng treulio chwe mis mewn lleoliad gwaith, a threulio chwe mis yn creu ei waith ei hun. Byddai'r lleoliad gwaith mewn cydweithrediad â nifer o theatrau ledled y DU, gan gynnwys y Sherman a Theatr Clwyd.

Mae'r cyfleoedd i gyfarwyddwyr yng nghanol eu gyrfaoedd yn Theatr y Sherman yn gyfyngedig, gan fod rhaid i'r Cyfarwyddwr Artistig gyfarwyddo'r prif gynyrchiadau llwyfan dan ei model ariannu. Serch hynny, mae'r theatr yn cefnogi cyfarwyddwyr trwy ei chwmnïau preswyl.

Mae gan Theatr y Torch yn Aberdaugleddau batrwm amrywiol o dri chynhyrchiad prif lwyfan un flwyddyn, a dau gynhyrchiad y flwyddyn wedyn. Felly mae'r theatr yn agored i ddefnyddio cyfarwyddwr llawrydd bob yn ail flwyddyn, yn amodol ar gael trefniant ariannu priodol. O fewn ecoleg theatr gymharol fach Cymru, gallai fod croeso mawr i gyfle tebyg. Dros gyfnod o ddeg blynedd, gallai hyn gynnig pum cyfle i gyfarwyddwyr weithio ar sioe prif lwyfan.

Mae cwmnïau eraill fel Dirty Protest a The Other Room wedi cynnig llawer o gyfleoedd i actorion, awduron a chyfarwyddwyr, fel arfer ar ddechrau eu gyrfâu yn y theatr.

Collodd cwmni The Other Room ei gartref ffisegol yn ddiweddar, a bu'n llwyfannu cynyrchiadau llwyddiannus mewn rhannau eraill o de Cymru, fel Dumpy Biscuit ym Mhort Talbot. Mae'r cwmni'n chwilio am ofod perfformio newydd ar hyn o bryd.

Astudiaeth Achos:

### Cyfarwyddwyr dan hyfforddiant yn Theatr Clwyd

**Mae Theatr Clwyd yn datblygu cynllun i gyfarwyddwyr dan hyfforddiant a fydd yn helpu i gynnig cyfleoedd cyfarwyddo. Mae ei chynllun mawr yn cynnig rhaglen estynedig (dwy flwyddyn ar hyn o bryd) llawn-amser â thâl i gyfarwyddwyr sy'n dod i'r amlwg, ac mae'n anelu at fynd i'r afael â'r prinder cyfleoedd hyfforddi tebyg yng Nghymru. Rhan hollbwysig o'r rhaglen yw'r cyfle gwarantedig i gyfarwyddo cynhyrchiad llawn ar ddiwedd y lleoliad gwaith.**

Mae dau aelod cyntaf y cynllun bellach yn gweithio'n broffesiynol i gwmnïau theatr yn y DU, ar ôl i'r ddau ohonynt gyfarwyddo eu cynyrchiadau llawn ar ddiwedd y cynllun yn Theatr Clwyd. Dechreuodd ail don y cynllun ym mis Medi 2022, pan ddechreuodd y trydydd cyfarwyddwr dan hyfforddiant weithio yn Theatr Clwyd.

## iii. Cynhyrchwyr

Nid yw'n glir faint o gynhyrchwyr theatr sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae'r ffigur rhwng 30 a 40. Mae cyfyngiadau ariannol yn golygu bod llawer o gwmnïau'n gwneud eu gwaith cynhyrchu eu hunain, gyda cholled gydredol o sgiliau arbenigol.

"Mae'n wir fod prinder gwirioneddol o gynhyrchwyr (yng Nghymru). Ond yn amlwg o edrych arni… mae'r ecoleg yn fach iawn, felly mae'r cyfleoedd i gynhyrchydd, neu sioe, pob math o bethau'n gyfyngedig mewn gwirionedd. Does dim cynhyrchydd gan lawer o gwmnïau, neu does ganddyn nhw ddim arian i gael cynhyrchydd. Wedi imi weithio yn Lloegr, nid dyna'r achos f'yna… mae gan y rhan fwyaf o theatrau maint canolig sy'n derbyn arian yn Lloegr gwell adnoddau."

"Mae cwmnïau wedi gorfod dod o hyd i ffyrdd o gyflogi cynhyrchydd, ac yn aml byddan nhw'n gweithio gyda rhywun heb lawer o brofiad o waith cynhyrchu, does ganddo ddim yr arbenigedd neu'r sgiliau angenrheidiol, er nad oes unrhyw fai arno am hynny."

Un dull o gefnogi cynhyrchwyr yw creu cyfleoedd iddynt rwydweithio a dysgu gyda'i gilydd. Mae digwyddiadau amrywiol cymaradwy ar gyfer datblygu cynhyrchwyr wedi gweithio mewn lleoedd fel Swydd Caerloyw trwy Theatre Bristol. Roedd y cynhyrchwyr a siaradwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad yn cefnogi model tebyg yng Nghymru.

Mae angen rolau creadigol ar gynhyrchwyr mewn sectorau eraill fel teledu, ffilm a digidol. Gallai hyn fod yn gyfle i drosglwyddo gwybodaeth a dulliau ar draws y disgyblaethau hyn er mwyn uwchsgilio cynhyrchwyr a'u galluogi i weithio mewn meysydd eraill er mwyn cefnogi gyrfaoedd cynaliadwy yng Nghymru.

## iv. Gwahaniaeth a Chynhwysiant

Yn debyg i ddull y Cyngor o ehangu ymgysylltu, mae'n hollbwysig nad yw'r sector yn ystyried gwahaniaeth a chynhwysiant yn faes annibynnol, ond yn hytrach yn egwyddor sy'n ddilys i bob cam a gymerwyd. Dylai holl argymhellion yr adroddiad hwn sicrhau hynny a gwneud gwahaniaeth i'r rhai sy'n gweld ac yn gwneud theatr Saesneg. Nododd Adolygiad Buddsoddi 2023 y Cyngor bod "arian ar gyfer mwy o sefydliadau a arweinir gan bobl sy'n amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig, gan gynnwys Fio a Jukebox (Caerdydd), yn ogystal â chynnydd yn y gynrychiolaeth o bobl F/fyddar ac anabl ar fyrddau'r sefydliadau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau bod ein sector yn gynrychiadol ac yn amrywiol."

Rydym yn gweld newid cadarnhaol. Mae mentrau megis Camau Creadigol, Llyfr Agored a llwybrau datblygu talent eraill a sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn, ac eraill a arweiniwyd gan sefydliadau a ariennir, yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â chydbwysedd cyfleoedd.

"Roeddwn i'n rhan o gynllun datblygu 'Unheard Voices' y Sherman, sef grŵp o awduron newydd a ymyleiddiwyd. Pan ddaeth y grŵp hwnnw i ben, daeth neges e-bost gan Branwen, yr hen reolwr llenyddol. Gofynnodd imi barhau â'r sgwrs a siarad â nhw am unrhyw ddramâu roeddwn i'n eu hysgrifennu, neu yr hoffwn eu hysgrifennu. Es i yno gyda syniad *The Women of Llanrumney*, sydd â'i fywyd ei hun erbyn hyn. Mae'n mynd i Stratford East cyn dod yn ôl i'r Sherman hefyd."

Ond mae gwaith i wneud o hyd. "Bues i'n gwneud llawer o waith gyda chymunedau wedi'u diarddel yn hanesyddol, gydag artistiaid sy'n dod i'r amlwg nad oedden nhw wedi cael y cyfle hwnnw o'r blaen… Beth sy'n cael ei golli yw ei fod o leiaf dwywaith yn fwy anodd i rywun nad yw'n artist neu weithiwr creadigol arferol wneud y cais, dod o hyd i'r gyllideb, dod o hyd i gynhyrchydd, dod o hyd i'r gofod, dod o hyd i bopeth sydd ei angen arno, trefnu popeth. Mae'n ddwywaith yn fwy anodd oherwydd nid hwn yw'r byd maen nhw wedi arfer ag ef. Nid yw'n achos o gael un cyfle'n unig, ond mae hi mewn ffordd, oherwydd os na aiff hi'n iawn y tro cyntaf, bydd pobl eraill yn ei annog i beidio â gwneud eto."

"Trwy fod yn rhan o fwyafrif byd-eang, dyw hi ddim mor ddeniadol pan na fydd y cynyrchiadau rydych chi'n gweithio arnyn nhw yn adlewyrchu eich diwylliannau a'ch amgylchiadau a'ch cymuned. Mae'n siŵr na fydd gwneud cais am unrhyw un o'r rolau hyn mor ddeniadol bellach. Felly unwaith bydd y bobl yn adrodd straeon tebyg iddyn nhw, ac mae awduron yn newid neu'n dod yn fwy amrywiol, mae'r cynyrchiadau'n dod yn fwy amrywiol ac wedyn mae'r bobl sy'n gweithio ar y cynhyrchiad yn fwy amrywiol, dwi'n meddwl.

## v. Mentora

Cododd yr angen am fentora yn gyson mewn cyfweliadau, am arweiniad un-i-un trwy'r diwydiant ac yn eu gwaith. Gallai fentoriaid tebyg weithio gyda chwmnïau ac unigolion fel rhan o'r broses ymchwil a datblygu.

"Gallwch weld beth allai fod ei angen i wella pobl yn ystod y cam ymchwil a datblygu. Felly gallai un pwynt mynediad fod yn ffordd o ddechrau cyflwyno mentora o ryw fath, felly os oedd y bobl hynny'n ymgeisio ac yn cael mwy o arian datblygu. Os ydych chi'n mynd trwy'r prosesau gwahanol hyn, rydych chi fel arfer yn creu darn o waith gyda llawer mwy o sglein ac mae'n ymestyn ymarfer pawb."

Dull arall fyddai annog mentora gan gwmnïau portffolio, gan ailadrodd yn rhannol model blaenorol NTW: "Mae 'na linyn cyfan o sefydliadau portffolio y gellir eu defnyddio i helpu artistiaid sy'n gwneud gwaith newydd. Sut ydych chi'n gwneud yn siŵr bod y datblygiadau hynny a'r gwaith ymchwil a datblygu hwnnw yn cael eu lledaenu'n genedlaethol? A sut ydy'r seilwaith, sydd gennym yn barod, yn cefnogi twf y gwaith hwnnw?"

Mae rhai ceisiadau Creu yn cynnwys mentora fel rhan o'r costau, ond gallai hwn fod yn faes sy'n cael ei dorri wrth i'r costau hyn dyfu.

### Astudiaeth Achos:

## Llyfr Agored

**Partneriaeth rhwng Theatr Clwyd, Theatr y Sherman, Theatr y Torch, Theatr Cymru a Phontio ym Mangor oedd *Llyfr Agored*. Roedd yn cynnig 15 diwrnod o gysgodi a gweithio gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Dimau Arwain yn Theatr Clwyd ac un sefydliad partner arall i ddeg gweithiwr theatr llawrydd, ac yn talu tâl llawn iddynt.**

**Ar ddiwedd y prosiect, roedd cyfanswm o £5,000 ar gael i ariannu'r gwaith o gyflwyno syniadau/prosiectau gan yr holl gyfranogwyr.**

Nod y prosiect oedd rhoi 'mynediad' i weithwyr llawrydd a allai cael eu heithrio o yrfa mewn theatr heb y llwybr hwn â chynhwysiant a mynediad yn sail iddo. Mae'n amlwg y buodd y prosiect hwn yr un mor drawsnewidiol i'r sefydliadau ag yr oedd i'r rhai a gymerodd rhan.

*"Trwy fod ym mhob cyfarfod, roeddwn i'n gallu gweld cymaint, a chael syniad o le mae fy niddordeb – hyd yn oed mewn meysydd nad oeddwn i'n meddwl y byddai gen i ddiddordeb ynddynt."*

*"Roeddwn i wedi synnu'n arbennig i weld faint oedd yn mynd i ddyddiadur Liam [y Cyfarwyddwr Gweithredol]! Doedd dim llawer o amser ganddo i'w hun, gyda chymaint o bobl i'w gweld a lleoedd i fynd iddynt."*

"Mae Llyfr Agored yn gyfle gwirioneddol i dynnu sylw at y gweithwyr llawrydd... Mae'n gyfarfod gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, dyw e ddim yn dilyn y fenyw o'r swyddfa docynnau am wythnos. Ac mae'r gweithwyr llawrydd y siaradais i â nhw wedi cael budd gwirioneddol o gael eu hystyried o ddifri, o gael agor eu llygaid i gynyrchiadau ar raddfa wahanol ledled Cymru, a sut y bydd pob cynhyrchiad yn amrywio."

## vi. Llwybrau i theatr

Mae llwybrau cynhwysol ac amrywiol i'r sector yn sicrhau y caiff y sgiliau a'r lleisiau sydd eu hangen ar sector iach a chreadigol eu hadnewyddu'n barhaus.

Disgwylir i leoliad newydd Canolfan Mileniwm Cymru gynnwys mwy na 10,000 o gyfranogwyr mewn hyfforddiant creadigol yn ystod y pum mlwyddyn nesaf, gan alluogi i raglenni ieuenctid presennol y Ganolfan dyfu, a rhoi mwy o gyfleoedd a chyfleoedd mwy cynhwysol i bobl ifanc ac artistiaid greu a chyflwyno gwaith newydd, a dysgu sgiliau newydd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, defnyddiodd y Ganolfan arian y Cyngor i ddatblygu model prentisiaeth greadigol. Cynigiwyd cyflog o £25,000 a chymorth i 6 prentis creadigol llawnamser, a arweiniodd at waith llawnamser. Mae'r Ganolfan wedi edrych ar brentisiaethau digwyddiadau byw, ond mae'n adolygu ai hwn yw'r llwybr gorau neu a fyddai dewis arall yn seiliedig ar rolau â thâl yn well.

Gallai prentisiaethau technegwyr a gynhaliwyd gan Ganolfan Mileniwm Cymru, a sefydliadau partner fel Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Theatrau Sir Gâr, New Theatre, y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol, Casnewydd, ac Arad Goch yn Aberystwyth fod yn fodel i gynllun prentisiaethau creadigol tebyg i Gymru-gyfan, gyda chwmnïau mwy o faint a lleoliadau yn derbyn un neu ddwy brentisiaeth ar y tro.

Mae Celfyddydau a Busnes hefyd yn ariannu prentisiaethau ac interniaethau ym meysydd codi arian a datblygu gyda chwmnïau theatr fel Theatr Iolo. Felly gallai rhywfaint o waith gwerthuso prentisiaethau creadigol fod yn rhan o waith ymchwil strategol a meddwl y Cyngor.

## vii. Bylchau o ran datblygu sgiliau

Mae'r argyfwng costau byw yn golygu nad yw gwneuthurwyr theatr ac awduron yn gallu fforddio mynd i weld sioeau y dylid eu hystyried yn rhan o'u hymarfer proffesiynol neu ddatblygol. Mae hefyd yn ffactor o ran cyfyngu ar ddatblygu gyrfa:

"Byddai'n wych i gael cyfleoedd a grantiau datblygu artistiaid. Dw i'n ymgeisio am grantiau ar gyfer fy mhrosiectau fy hun ar hyn o bryd, ond mae hi mor anodd i ddod o hyd i gyfleoedd jyst i'ch helpu chi i ddatblygu eich ymarfer. Oherwydd y diffyg cyfleoedd i artistiaid, mae'n hollbwysig inni ddatblygu ein sgiliau. Dw i'n adnabod llawer o artistiaid a hoffai roi cynnig ar eu syniadau er mwyn bwydo eu creadigrwydd, ond does ganddyn nhw ddim yr arian i wneud hynny. Hefyd, oherwydd sefyllfa bresennol y gwaith, po fwyaf o sgiliau sydd gennych, y mwyaf tebyg y byddwch chi'n cael eich cyflogi."

Soniodd rhai am 'Developing Your Creative Practice' ACE fel model da. Mae'r gronfa hon yn 'cefnogi ymarferwyr diwylliannol a chreadigol unigol sy'n barod i fynd â'u hymarfer i'r cam nesaf trwy bethau fel: ymchwil, amser i greu gwaith newydd, teithio, hyfforddiant, datblygu syniadau, rhwydweithio neu fentora. Mae'r gronfa yn derbyn ceisiadau pedair gwaith y flwyddyn."

Mae unigolion yn gallu ymgeisio ar gyfer hyfforddiant a datblygu yn yr un modd trwy gronfa Creu y Cyngor, ond efallai nid yw'r llwybr hwnnw wedi'i nodi'n ddigon da. Mae angen i wneud hyn yn fwy amlwg. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynyddu lefelau'r arian y mae unigolion yn gallu ymgeisio amdano fel ffordd iddynt gynnwys hyfforddi a datblygu ochr yn ochr â gwneud gwaith; roedd hyn yn seiliedig ar adborth gan y sector, ond efallai nid yw'r ymwybyddiaeth am y cyfle hwn yn ddigon clir.

## viii. Ymchwil a datblygu

Mae ymchwil a datblygu'n elfen o ddatblygu cynnyrch theatr ac o ddatblygu gwneuthurwyr theatr ac artistiaid. Mae artistiaid yn dysgu trwy wneud, ac mae'r adborth a geir gan gymheiriaid yn ystod y cam ymchwil a datblygu'n greiddiol i'r broses o ddysgu am eich ymarfer, ac yn gyfle i ddeall ymarfer pobl eraill.

Mae teimlad ar hyd o bryd bod gormod o waith ymchwil a datblygu yn cael ei wneud, heb ddigon o ganolbwynt iddo. Nid oes gwaith olrhain cynhwysfawr o ymchwil a datblygu'n digwydd, yn rhannol oherwydd y caiff rhai prosiectau eu datblygu y tu allan i'r Cyngor Celfyddydau. Hefyd, mae cymaint o arian yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu, nid oes modd gweld popeth. Mae'r ffaith nad yw lefelau staffio'r Cyngor yn ddigonol, ar ôl blynyddoedd o doriadau, i fynd i'r holl ddangosiadau ymchwil a datblygu yn wendid yn y broses. Bu hyn yn broblem ers amser. Efallai eir i'r afael â hi trwy ddatblygu/recriwtio nifer o fentoriaid a delir neu weithwyr cyswllt sy'n mynychu ymchwil a datblygu theatr i gynnig adborth a thrafod y camau datblygu nesaf.

Syniad diddorol oedd 'digwyddiadau rhannu', gan ddwyn ynghyd nifer o brosiectau ymchwil a datblygu er mwyn cynnig ffordd fwy effeithiol i bersonél allweddol y sector celfyddydau, fel cyfarwyddwyr artistig, weld y gwaith, ac i'r gwneuthurwyr weld y gwaith sydd ar y gweill gan eu cymheiriaid ac i roi adborth arno. Mae'n bosibl y byddai tocynnau rhad ar gael i'r cyhoedd.

"Mae gen i lawer o ffrindiau a chydweithwyr ifancach sydd wedi'u diddanu cymaint yn fwy na fi gan y syniad o weld pethau newydd cyffrous. Petai blatfform yn cael ei sefydlu lle gallant fynd i wneud stwff arbrofol newydd, byddai'r bobl ifancach yn gwneud hynny. Hyd yn oed os oedd clwb ar gael, os bysech chi'n talu tanysgrifiad blynyddol trwy golegau a phrifysgolion, bydden nhw'n cael y tanysgrifiad hwnnw."

## Argymhellion: Artistiaid a Gwneuthurwyr Theatr

Argymhelliad 10:
Archwilio posibiliadau ar gyfer cyfleoedd cyfarwyddo i ategu'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd yn Theatr Clwyd, y Sherman ac mewn cwmnïau unigol, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu rhwystrau i fynediad.

Argymhelliad 11:
Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhyrchwyr trwy gynnal digwyddiad deuddydd cychwynnol i gynhyrchwyr er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion uniongyrchol o ran hyfforddi a chreu cyfleoedd rhyngweithio.

Argymhelliad 12:
Adeiladu ar ymarfer da, fel prentisiaethau creadigol Canolfan Mileniwm Cymru a phrosiect Llyfr Agored yn arbennig, er mwyn cefnogi ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr i fynd i'r sector a gwneud cynnydd ynddo.

Argymhelliad 13:
Sicrhau y caiff prosesau ymchwil a datblygu eu holrhain, gyda mwy o waith asesu trwy fentoriaid o bosib, er mwyn gwerthuso eu gwerth yn llawn.

Argymhelliad 14:
Sefydlu rhwydwaith o fentoriaid er mwyn helpu i unigolion a chwmnïau ddatblygu eu gwaith, gan gynnwys sut allant chwarae rhan yn y prosesau ymchwil a datblygu.

Argymhelliad 15:
Amlygu'r llwybr ar gyfer gwneud cais am arian Creu i unigolion, gan gynnwys arian ar gyfer hyfforddi a datblygu.

Argymhelliad 16:
Annog y gwaith o ddatblygu digwyddiadau ymchwil a datblygu sy'n cynnal nifer o raniadau ar yr un pryd.

# 5. Ysgrifennu Newydd

Caiff ysgrifennu newydd ei gefnogi mewn amryw o ffyrdd yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda chwmnïau unigol yn comisiynu gwaith; cwmnïau'n gweithio gyda'i gilydd i gynnig comisiynau un-tro, fel Theatr y Torch a Theatr Clwyd; gwaith datblygu trwy adran lenyddol y Sherman, a thrwy gwmnïau deinamig fel Dirty Protest.

Mae'n debyg bod llawer mwy o gyfleoedd yng Nghymru i awduron newydd na'r rhai yng nghanol eu gyrfa, neu ddramodwyr wedi hen sefydlu: eto, sefyllfa y gellir ei chymharu â'r sefyllfa a wynebir gan gyfarwyddwyr yng nghanol eu gyrfaoedd.

Mae straeon a ddaw o ystod o brofiadau byw yn sicrhau bod gennym sector sy'n cynrychioli Cymru heddiw, ac yn creu gwaith sy'n dwyn perthynas â chynulleidfaoedd eang.

## i. Comisiynu a datblygu awduron

Nifer gyfyngedig o gyfleoedd sydd ar gael i ddramodwyr yng nghanol eu gyrfaoedd a'r rhai wedi hen sefydlu yng Nghymru. Hefyd, ceir rhwystrau o ran gweld testunau diweddar yn cael eu perfformio.

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru'n trefnu tymor ysgrifennu newydd bob blwyddyn, sy'n comisiynu awdur o Gymru bob tro, fel arfer ar y cyd â'r Sherman. Yn y gorffennol, mae'r prosiect wedi cynnwys gwaith gan Daf James, Gary Owen, Lisa Parry a Rhiannon Boyle, ac mae cwmni Richard Burton y coleg yn gweld myfyrwyr yn perfformio llawer o waith newydd yn rheolaidd, yn ogystal â pheth wmbredd o ddramâu cyfoes.

Mae cynlluniau Theatr Clwyd ar gyfer dramâu yn ystod y blynyddoedd nesaf yn cynnwys perfformio pedwar drama gan awduron o Gymru am y tro cyntaf yn y byd yn ystod 2024-25, saith yn 2025 ac wyth yn 2026/2027. Ers mis Mawrth 2016, mae Theatr Clwyd wedi perfformio 50 o ddramâu newydd gan awduron o Gymru neu rai a leolwyd yng Nghymru.

Cafwyd cyfnod cynhyrchiol o ysgrifennu newydd yng Nghymru dan ymbarél Sgript Cymru, a fu'n allweddol yn natblygiad awduron fel Tim Price a Gary Owen, cyn i'r corff uno â Theatr y Sherman.

Ar hyn o bryd, mae gan y Sherman ei hadran lenyddol ei hun er mwyn dod o hyd i ddramâu newydd a lleisiau amrywiol, newydd, a'u datblygu. Nid yw'n rhan o arian craidd y theatr ac nid yw'r adran wedi'i hariannu ar ôl diwedd mis Mawrth 2025. Bydd rhaid i'r theatr ddod o hyd i opsiynau ariannu gwahanol ar ei chyfer wedi hynny. "Ond mae wedi bod yn bwysig iawn inni. Rydyn ni wedi siarad am fod yn le ar gyfer ysgrifennu newydd ers amser hir, ond mae angen adran lenyddol i allu dod o hyd i awduron newydd sy'n dod i'r amlwg, ac awduron sy'n tapio.

Mae angen unigolion sydd â'r amser i gynnal mentrau fel *Unheard Voices*." Fel y soniwyd uchod, mae *Unheard Voices* wedi cefnogi awduron newydd gan gynnwys Azuka Oforka, (*The Women of Llanrumney*) a Nerida Bradley (cydawdur *Polly & Esther* a aeth i Ŵyl Ymylol Caeredin yn 2024).

Yn Lloegr, ceir mwy o gyfleoedd ar gyfer dramâu cyntaf, dramâu gan ddramodwyr wedi hen sefydlu, a'r rhai yng nghanol eu gyrfa. "Does dim dilyniant clir yng Nghymru. Os ydw i yn Llundain, gallaf anfon drama i'r Royal Court, efallai y bydd yn fy rhoi i ar ei chynllun ysgrifennu, wedyn af i ddrama stiwdio yn y Bush, ac wedyn mynd i weithio yn Hampstead neu yn y Kiln, wedyn efallai byddai'n mynd at y National. Gallwch fynd *boom*, *boom*, *boom*, *boom*, *boom*, i fyny'r goeden, ond does dim coeden yng Nghymru."

Ceir cyfleoedd ac enghreifftiau da yn y theatrau hyn yn Llundain. Gellir seilio'r broses o rannu profiad ac arbenigedd ar "fodel y Royal Court lle, yn y gorffennol, mae awduron ar gomisiwn neu awduron cysylltiedig yn cynnal dosbarthiadau meistr mewn ysgrifennu dramâu, a chyrsiau i ddramodwyr sy'n dod i'r amlwg. Mae ymagwedd cymryd risg y Royal Court a'r Bush i'w chanmol hefyd, lle mae'r trosiad o gomisiynau yn uwch, a rhoddir cyfleoedd i leisiau newydd. Wrth gwrs, gall arian ac adnoddau fod yn rhwystr enfawr yn gyffredinol, ond byddai'n bosibl sefydlu stiwdio ysgrifennu newydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Theatr Clwyd a Phontio."

Er bod rhai yn dadlau o blaid corff unigol, roedd eraill yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gael sawl llwybr, gan ddefnyddio Dirty Protest ac Other Room fel enghreifftiau o gydrannau hanfodol yn y gwaith o gomisiynu awduron newydd yng Nghymru yn ogystal â'r prif dai cynhyrchu, ynghyd ag arbenigwyr mewn ysgrifennu theatr ar gyfer pobl ifanc, fel Theatr Iolo.

Mae creu strategaeth theatr y Cyngor yn cynnig cyfle i werthuso'r ffordd orau o gefnogi dramodwyr Cymru, gan edrych ar fodelau mewn gwledydd eraill a'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru.

Astudiaeth Achos:

## Ysgrifennu newydd yn yr Alban ac Iwerddon

**Sefydlwyd y *Playwrights Studio* yn yr Alban yn 2004 ar gais dramodwyr er mwyn cynnig cymorth gyrfa artistig-annibynnol i ddramodwyr yr Alban. Hwn yw'r unig sefydliad celfyddydol yn y DU a ddynodwyd yn benodol i ddatblygu awduron yn artistig ar gyfer perfformio byw, trwy raglenni cymorth wedi'u strwythuro, adnoddau mynediad agored, cyfleoedd rhwydweithio a digwyddiadau.**

Yn Iwerddon, mae gan lawer o gwmnïau annibynnol swyddogaeth dramayddiaethol neu lenyddol rhan-amser, ond "y broblem yw eu bod yn brysur iawn trwy'r amser, felly un syniad rydyn ni wedi'i drafod yw ceisio ei ganoli o bosib. Mae sefydliad yn Awstralia o'r enw *Playwrights Australia* ac mae'r *Playwrights Studio* yn yr Alban... Rydyn ni wedi trafod y syniad o gael siop un stop oherwydd rydych chi'n gobeithio y bydd ganddi adnoddau digonol i roi adborth a mewnbwn dramayddiaethol hael, ond hefyd trwy beidio bod yn gwmni cynhyrchu, nid yw'n diogelu'n hunanol y sgriptiau y hoffai eu cynhyrchu. Mae wir yn ceisio helpu'r awduron hynny i gael y gwaith hwnnw ar lwyfan yn rhywle."

## ii. Llwyfannu Gwaith

Nodwyd bod "theatr cenedlaethol Lloegr wedi llwyfannu adfywiad o waith clasurol o Gymru yn ddiweddar".

Yma yng Nghymru "mae angen cyfleoedd gwell i awduron ddatblygu eu gwaith a'i rhoi ar lwyfan, a mwy o bwyntiau mynediad i ysgrifenwyr gwahanol o gefndiroedd llawer mwy amrywiol. Byddai'n wych i weld mwy o fwrsariaethau i ddramodwyr ac i weld mwy o leoliadau yng Nghymru'n cael dramodydd preswyl am 3 mis. Byddai'r math hwn o fenter yn gallu cysylltu â hyfforddiant sgiliau creadigol mewn dramayddiaeth, cyfarwyddo a hyfforddiant mynediad creadigol. Gallai fod yn ffordd o ddatblygu cynulleidfa hefyd: gallai pob bwrsariaeth gynnwys gweithio mewn llyfrgell neu ysgol fel rhan o gyfraniad yr awdur."

Mae cyfle i weithio gydag Urdd Awduron Prydain Fawr i gomisiynu dramâu. Gallai dramodwyr weithio gyda chwmnïau yng Nghymru a thu hwnt, gan annog cydweithredu ehangach. Byddai cwmnïau'n elwa o beidio â chynnwys cost y ddrama yn ei gyllideb gynhyrchu.

## iii. Y dramâu o Gymru sydd ar gael

Mae'r canon o ddramâu Saesneg o Gymru yn anweladwy i raddau helaeth. Fel dywedodd un dramodydd yn gryno: "Allwch chi ddim dod o hyd i silff o ddramâu o Gymru yn *Waterstones*."

Yn wir, nid peth hawdd yw dod o hyd i ddramâu o Gymru, a phrin iawn yw'r dathliad ohonynt: "Mae'r traddodiad llenyddol, y traddodiad o ysgrifennu i'r llwyfan yng Nghymru, wedi bod yn ddarniog, ac mae'n ymddangos nad yw'n cael ei ddathlu. Felly mae gwaith pwysig i'w wneud o ran edrych ar y stwff yna eto, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod ar gael ac yn hygyrch o leiaf, ond yn bendant, dylai unrhyw theatr genedlaethol gwerth ei halen fod yn mynd nôl dros y gwaith hwn."

Mae angen mynd i'r afael â'r sefyllfa hon nid yn unig i ddyrchafu'r gweithiau hyn, ond hefyd i greu llif incwm i'r awduron.

## Argymhellion: Ysgrifennu Newydd

**Argymhelliad 17:**
Sefydlu fersiwn o'r Cynllun Comisiynu Drama Newydd ar raddfa fach, i'w weinyddu gan Urdd Awduron Prydain Fawr yng Nghymru.

**Argymhelliad 18:**
Sefydlu cyfres Dramâu Cymru debyg i Lyfrgell Cymru. Hefyd, edrych ar greu llyfrgell ddigidol o ddramâu gan ddilyn y model a sefydlwyd gan Theatr Cymru.

Astudiaeth Achos:

## Urdd Awduron Prydain Fawr

Cynllun a lwyddodd i greu cyfleoedd ar gyfer dramodwyr wedi hen sefydlu a dramodwyr yng nghanol eu gyrfaoedd yn Lloegr oedd y Cynllun Comisiynu Dramâu Newydd blaenllaw, a grëwyd gan Urdd Awduron Prydain Fawr. Roedd yn ymateb yn rhannol i'r dirywiad o ran comisiynu dramâu newydd a gafwyd ar ôl y pandemig Covid-19.

Cefnogwyd y cynllun gan arian cyhoeddus o Arts Council England a gan Gymdeithas Theatr Llundain trwy'r Ymddiriedolaeth Ddatblygu Theatr. Comisiynwyd 18 o ddramâu ac mae 17 ohonynt wedi'u llwyfannu: "Mae gennym dai a chwmnïau ardderchog yma sy'n comisiynu a chynhyrchu gwaith. Petai'r Cyngor yn gallu partneru a chydariannu cynlluniau tebyg, byddai gennym lawer o awduron yn cynhyrchu gwaith theatraidd cyffrous i'w gynnig i gynulleidfaoedd."

Mae fersiwn newydd o gynllun Urdd Awduron Prydain Fawr yn cael ei ddatblygu yng nghanolbarth Lloegr ar hyn o bryd.

# 6. Cysylltiadau Rhyngwladol

Mae cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol a sefydlir trwy'r theatr yn bontydd hanfodol, sy'n galluogi i gymdeithasau rannu eu safbwyntiau unigryw, traddodiadau, a phrofiadau cyfoes mewn ffyrdd y tu hwnt i ffiniau a rhwystrau iaith. Pan fydd gwneuthurwyr theatr yn cydweithredu rhwng gwledydd, maent yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a hefyd yn cyfoethogi eu chwedleua eu hunain trwy ymagweddau creadigol amrywiol, mewnwelediadau diwylliannol, a thraddodiadau artistig. Serch hynny, yn aml bydd angen ar y partneriaethau rhyngwladol gwerthfawr hyn arian dynodedig a chymorth sefydliadol er mwyn goresgyn rhwystrau logistaidd ac ariannol.

### Gŵyl Ymylol Caeredin

Gŵyl Ymylol Caeredin yw un o wyliau a marchnadoedd celfyddydol mwyaf y byd, ac mae'n denu rhaglennwyr, cynhyrchwyr a chwmnïau celfyddydol o'r DU ac o bob cwr o'r byd. Mae'r ŵyl yn blatfform pwysig ar gyfer arddangos a rhwydweithio, ac yn gyfle i dalent newydd o Gymru fagu hyder.

Mae artistiaid a leolir yng Nghymru, cwmnïau celfyddydau perfformio, a gweithwyr creadigol proffesiynol yn cynhyrchu ac yn cyflwyno eu gwaith yng Ngŵyl Ymylol Caeredin. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni trwy asiantaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae'r rhaglen wedi'i guradu yn cynnig cyfle i gwmnïau a gweithwyr creadigol proffesiynol sy'n barod i ddangos eu gwaith ddatblygu marchnadoedd yn rhyngwladol ac i ddod o hyd i ffyrdd o wella eu patrymau teithio y tu allan i Gymru.

Roedd rhai a gyfwelwyd â hwy, a rhai a ymatebodd i'r arolwg, yn cwestiynu gwerth ymweld â Chaeredin o gofio'r raddfa a'r gwariant cysylltiedig, a masnacheiddio'r ŵyl: "Mae sawl peth wedi digwydd yng Nghaeredin. Aeth yn rhy fawr yn gorfforol, felly mae wedi colli rhywfaint o'i harbenigrwydd. Mae wedi tyfu'n fasnachol dros ben. Mae gen i brofiad personol ohono, mae gen i brofiad helaeth o bobl eraill nad ydyn nhw byth heb fod wedi'u gwasgu'n ariannol o fynd i Gaeredin."

Yn hanesyddol, er mwyn helpu i bobl lywio Gŵyl Ymylol Caeredin, mae arian *Hadu'r Dyfodol Celfyddydau Rhyngwlado*l Cymru/y Cyngor wedi'u cefnogi i "fynd yna a'i phrofi, ei deall, mynd i weld gwaith, gweld beth sy'n digwydd, edrych ar y farchnad a beth sydd angen ichi ei wneud i sefyll allan yn y farchnad honno er mwyn gwerthu eich sioe."

Astudiaeth Achos:

## Sherman yn y Pleasance

### Theatr y Sherman yw partner Cymru yn Rhaglen Partneriaethau Rhyngwladol y Pleasance Caeredin.

Cymerodd rhan yn y bartneriaeth am y trydydd tro yn 2024. Yn y flwyddyn gyntaf, cefnogodd y Sherman Francois Pandolfo i fynd â'i waith "An Audience with Milly-Liu," i'r ŵyl; "Choo Choo" oedd y gwaith a aeth yn yr ail flwyddyn; ac aeth â'r gwaith "Polly and Esther" yn 2024.

Mae cwmnïau ledled Cymru'n cyflwyno syniad ac mae'r Sherman a'r Pleasance (un o bedwar prif leoliad yr Ŵyl) yn dewis un fel Sioe Cymru ym Mhartneriaeth Ryngwladol Caeredin. Bydd y Sherman wedyn yn talu ffi gofrestru Caeredin a bydd y Pleasance yn cyfrannu £2,500 tuag at ei gostau, ac yn rhoi iddo gymorth marchnata a chymorth gyda'r wasg.

Yn 2024, cefnogodd y Sherman Paul Jenkins a Theatr3's *Moscow Love Story* i fynd i ŵyl Caeredin hefyd, gwaith a ddatblygwyd â chymorth Labordy Theatr Alma Alter ym Mwlgaria.

### Tu Hwnt i'r Ŵyl Ymylol

Cafwyd llawer o gyfnewidiau, partneriaethau a chyfleoedd rhyngwladol ffrwythlon i ac o Gymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, cafodd gwaith Ed Thomas ei lwyfannu yn Barcelona, Bremen, Berlin, Copenhagen, gwlad Groeg a Montreal. Yn y cyfamser, mae llawer iawn o gwmnïau ac unigolion wedi elwa o gyfnewidiau, cymorth i berfformio a chydweithredu. Mae ystod o gyfleoedd ar gael i sector Cymru, fel Gŵyl *Clin d'Oeil*, Gŵyl Celfyddydau'r Iaith Arwyddion Ryngwladol, gŵyl Imaginate yn yr Alban, gŵyl *Unlimited* yn Southbank, gŵyl *Deaffest* a Gŵyl Ymylol Dulyn, gan gynnwys WEFT. Mae WEFT yn fenter allweddol o ŵyl Ymylol Dulyn a dynodwyd ar gyfer y gwaith o feithrin artistiaid Duon ac artistiaid y mwyafrif byd-eang sy'n dod i'r amlwg, neu sydd ar ddechrau eu gyrfaoedd. Caiff y fenter hon ei chefnogi gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Gall cydweithrediadau rhyngwladol fod yn arbennig o ffrwythlon pan fydd y gwaith yn cynnwys arbenigedd, fel y celfyddydau ac iechyd, neu theatr i bobl ifanc. Roedd y cwmni a leolir yng Nghaerdydd Re-Live yn rhan o berfformiad hanes bywyd ar-lein rhyngwladol gyda hynafgwyr ar draws y byd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Cafwyd perfformiadau byw gan bobl hŷn yn Ne Affrica, Lithuania, Brasil ac Efrog Newydd: "Felly dyna'r tro cyntaf inni wneud hynny. Fel arfer mae ein cwmni o hynafgwyr, sef ein grŵp hanes bywyd ar gyfer pobl hŷn sy'n cwrdd ar-lein, wedi gwneud sioeau hanes bywyd ar-lein. Dyma'r tro cyntaf iddynt rannu'r llwyfan ar-lein gyda phobl hŷn eraill. Ac mae'n gyffrous iddynt. Ac mae'n gyffrous i bobl hŷn ar draws y byd. Gyda chymorth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, aethom i *Bealtaine* hefyd, sef yr ŵyl i bobl hŷn yn Iwerddon."

Mae artistiaid unigol, fel y gwneuthurwr theatr blynyddoedd cynnar Sarah Argent, wedi elwa'n debyg o gysylltiadau rhyngwladol ac wedi cyfrannu atynt megis gweithio yn Ne Affrica, a osododd cenedl ddwyieithog yng nghyd-destun cenedl amlieithog.

Mae gan Hijinx Theatre lawer o gysylltiadau rhyngwladol ac mae llawer ohonynt yn deillio o'i ŵyl Unity. Yn un o wyliau celfyddydau cynhwysol mwyaf Ewrop, hon yw'r unig ŵyl o'i math yng Nghymru.

Astudiaeth Achos:

## Dirty Protest

**Buodd gwaith theatr Dirty Protest yn llysgenhadol ers amser hir. Cyfieithwyd ei gynhyrchiad How to *Be Brave* i'r Ffrangeg ac aeth ar daith yn Ffrainc. Dyma ddechrau ar waith y cwmni yn Ffrainc.**

Yn rhyngwladol, mae'r cwmni wedi partneru â chwmnïau ledled yr Amerig, Ewrop, Awstralia a dwyrain Asia, gan gynnwys digwyddiadau cydweithredol yn ddiweddar gyda Fishamble, cwmni dramâu newydd Iwerddon, a phrosiect ymchwil *People's Palace*, a leolir yn Llundain a Rio de Janeiro.

Mae cwmni Dirty Protest wedi bod yn creu cysylltiadau rhwng pobl ifanc yng Nghasnewydd a Rhondda Cynon Taf, a phobl ifanc yn Nhiriogaeth Frodorol Xingu ym Masn yr Amazon, canolbarth Brasil, trwy ei brosiect *Creative Climate Connections*. Trwy gydol y prosiect, mae'r bobl ifanc yn archwilio eu cysylltiadau diwylliannol trwy straeon, ffilmiau a chelfyddyd perfformio, ar-lein ac wyneb yn wyneb trwy'r Gymraeg, Saesneg, Wauja, Portiwgaleg, Cwrdeg a Thyrceg. Mae Dirty Protest hefyd yn aelodau o Rwydwaith Eureka sy'n cefnogi cydweithredu rhyngwladol rhwng Ewrop ac America Ladin, a'r Rhwydwaith Celfyddydau Perfformio Rhyngwladol (IETM), sy'n cefnogi artistiaid i dyfu eu rhwydweithiau rhyngwladol eu hunain ac i ddangos eu gwaith.

Sefydlwyd yr ŵyl yn 2008 er mwyn rhoi'r cyfle i artistiaid anabl, artistiaid ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth berfformio ar blatfform proffil uchel. Mae grantiau cydweithredu diweddar gan y British Council a'r Bont Ddiwylliannol wedi cysylltu Hijinx Theatre â chwmni tanzbar-bremen (Bremen) yn yr Almaen, gan ddod ag artistiaid anabl a niwrowahanol ynghyd i ddatblygu perfformiad theatr stryd ar raddfa fawr.

Gŵyl yng Nghymru a fu'n cynorthwyo'r gwaith o feithrin llawer o berthnasau rhyngwladol yw Gŵyl Agor Drysau. Nod yr ŵyl theatr ryngwladol hon ar gyfer gynulleidfaoedd ifanc, a drefnir gan gwmni Theatr Arad Goch, yw "rhoi'r cyfle i blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru weld rhai o gynyrchiadau theatr gorau'r byd yn ogystal â rhoi cyfle i raglenwyr a chynhyrchwyr rhyngwladol brofi cyfoeth celfyddydau perfformio Cymru." Sefydlwyd yr ŵyl yn 1996, a chafodd ei chynnal am y degfed tro ym mis Mawrth 2024.

### Argymhellion: Cysylltiadau Rhyngwladol

**Argymhelliad 19:**
Asesu rhinweddau sefydlu mwy o gyfleoedd i ymarferwyr theatr a threfnwyr lleoliadau yng Nghymru, fel Cymrodoriaeth y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio.

**Argymhelliad 20:**
Gwerthuso presenoldeb ac arddangos Cymru yng ngŵyl Ymylol Caeredin cyn 2026, a chanfod a gwerthuso cyfleoedd eraill i gyfranogi mewn gwyliau eraill.

# 7.
# Beirniadaeth Theatr

**Ystyriwyd y prinder adolygwyr yn broblem o ran marchnata ac i ddiwylliant yn fwy cyffredinol. “Mae’r diffyg platfformau ar gyfer cynnal trafodaethau beirniadol o natur adeiladol yn rhwystr gwirioneddol. Mae’r ffaith bod Planet a’r *New Welsh Review* wedi cau yn ddiweddar, er nad oeddent yn costio braidd dim, y tu hwnt i mi.”**

Rhoddodd cwmnïau enghreifftiau o’r effaith caiff adolygiad cadarnhaol mewn cyhoeddiad DU-gyfan fel y *Guardian* ar niferoedd cynulleidfa. Esboniodd eraill ei fod yn anodd iawn iddynt ddenu beirniaid, yn enwedig y tu hwnt i goridor y M4.

Yn hanesyddol, cafwyd cynlluniau amrywiol i annog a datblygu beirniaid yng Nghymru, a gefnogwyd gan gyrff fel *Visiting* Arts a National Theatre Wales. Bu NTW yn cysylltu beirniaid newydd yng Nghymru â newyddiadurwyr wedi hen sefydlu ym maes y celfyddydau fel Lynn Barber. Byddai’n anodd ailadrodd cynllun tebyg heddiw, gan fod cymaint yn llai o feirniaid theatr cenedlaethol yn y DU erbyn hyn. Yng Nghymru, mae gennym Nick Davies yn ysgrifennu i *The Stage* a Gareth Llŷr Evans yn rhoi adolygiadau yn y *Guardian*, ac efallai y gellid manteisio ar eu sgiliau a’u gwybodaeth. Mae cynlluniau diweddar yn y maes hwn wedi cynnwys Cynllun Beirniaid Ifanc Venue Cymru yn Llandudno, a gynhaliwyd yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy. Yn dilyn diflaniad Wales Arts Review, *New Welsh Review a Planet*, *Get the Chance* yw un o’r ychydig ffynonellau rheolaidd o feirniadaeth yng Nghymru.

## Argymhellion: Beirniadaeth Theatr

**Argymhelliad 21:**
Cefnogi cynllun datblygu ar gyfer adolygwyr theatr.

Astudiaeth Achos:

## Get The Chance

Nod *Get the Chance* yw rhoi “cyfleoedd i ystod amrywiol o bobl brofi ac ymateb i chwaraeon, y celfyddydau, diwylliant a digwyddiadau byw” sy’n cynhyrchu ymatebion beirniadol ac adolygiadau a welir ar ei wefan. Mae ganddo dair ffrwd: beirniaid ifanc hyd at 25 oed, beirniaid cymunedol rhwng 25 a 50 oed; a beirniaid trydedd act dros 50 oed. Guy O’Donnell sy’n rheoli’r wefan, ar sail wirfoddol: “Mae diddordeb gyda ni mewn clywed llais mwy cynrychiadol. Mae gyda ni ddiddordeb ym mhotensial y rhyngrwyd ac ar-lein, felly rydyn ni wedi cefnogi pobl ddall a phobl fyddar, neu i adolygu mewn comig, adolygu ffilm neu ganeuon. Mae gen i ddiddordeb mewn creadigrwydd o ran yr ymateb hefyd. Dw i’n cael trafferth i gefnogi’r gweithgareddau. Dw i’n meddwl i fy hun o hyd, o, gallwn ni wneud cymaint yn fwy.”

# 8. Ieuenctid a Datblygu i'r Dyfodol

**Mae ystod o sefydliadau a chwmnïau yng Nghymru yn gwneud theatr ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc a chynulleidfaoedd ifanc iawn, megis Theatr na nÓg, Theatr Iolo ac Arad Goch.**

Mae eraill yn gweithio gyda phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol, ochr yn ochr â mentrau fel Ewch i Weld. Ond sut ellir cyrchu theatr yn yr ystafell ddosbarth?: "O gofio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, os yw Llywodraeth Cymru'n buddsoddi yn y cwricwlwm newydd, a allai fod yn flaenllaw yn fyd-eang, lle mae celfyddyd fynegiadol yn allweddol ac yn cysylltu popeth at ei gilydd, allwch chi ddim peidio ag ariannu'r sefydliadau hynny sy'n darparu'r gwaith hwnnw ac sy'n cefnogi'r athrawon i gyflawni'r gwaith hwnnw."

A sut ydym yn sicrhau y bydd y rhai sy'n fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau – oherwydd eu profiadau o heriau economaidd-gymdeithasol, hiliol ac o ran anabledd – yn gallu cyrraedd yr hyn a allai fod yn gyfleoedd trawsnewidiol yn ystod eu blynyddoedd cynnar?

## i. Y gynulleidfa a gwneuthurwyr y dyfodol

Yn ogystal â theatr a gaiff ei wneud ar gyfer pobl ifanc, mae theatr a gaiff ei wneud *gan a gyda* phobl ifanc, sy'n cynnig llwybr i'r theatr yn academaidd ac yn broffesiynol (gweler yr astudiaethau achos).

Yn ystod yr adolygiad hwn, daeth cyfarfod o gynrychiolwyr Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Plant y Cymoedd a'r Sherman i'r casgliadau canlynol:

*Rhaid i unrhyw strategaeth theatr i Gymru gynnwys gwneuthurwyr theatr ifanc fel cydran graidd, y rhai sy'n gwneud gwaith nawr a'r rhai sy'n dyheu i wneud gwaith yn y dyfodol, yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.*

*Mae angen ar strategaeth theatr i Gymru gynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r llwybrau gyrfa presennol sydd ar gael i bobl ifanc a hoffai ddatblygu gyrfa mewn theatr, er mwyn canfod y bylchau mewn darpariaethau. I ddwyn y rhai sy'n chwarae rhan allweddol ynghyd, gan gynnwys addysg uwch, prifysgolion, sefydliadau celfyddydau ieuenctid, artistiaid ar ddechrau eu gyrfa, gweithwyr llawrydd a theatrau â darpariaeth ieuenctid ar hyn o bryd, i'w datblygu.*

Comisiynodd y Cyngor adroddiad i ddatblygu theatr ieuenctid. Nododd yr angen am strategaeth ieuenctid lawn i Gymru, sy'n cynnwys yr holl gelfyddydau. Gallai'r adolygiad hwn fod yn gyfle i adeiladu ar y gwaith hwnnw o safbwynt theatr. Byddai'r gwaith yn cael ei gefnogi gan rwydwaith cenedlaethol a arweinir gan bobl ifanc, gyda chymorth ymarferwyr hyfforddedig, er mwyn i bobl ifanc roi adborth a dylanwadu ar gyfeiriad y strategaeth gwneud theatr sy'n cynnwys eu hanghenion a'u dyheadau.

Astudiaeth Achos:

# Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

**Mae Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru'n un o brif elfennau'r ddarpariaeth ieuenctid, sy'n gweithio gyda phartneriaid theatr blaenllaw i gynnig hyfforddiant a chyfleoedd perfformio o'r radd flaenaf i bobl ifanc fwyaf talentog Cymru.**

Ers dros 45 o flynyddoedd, mae'r Theatr wedi meithrin talent ac uchelgais miloedd o bobl ifanc drwy gynnig cyfleoedd perfformio lefel proffesiynol, ochr yn ochr â rhaglenni sgiliau a hyfforddiant sy'n magu hyder, a llwybrau i'r diwydiannau perfformio a chreadigol.

Mae cyn-aelodau'r Theatr a aeth ymlaen i ragori fel perfformwyr, awduron, cyfarwyddwyr, rheolwyr llwyfan a chynhyrchwyr yn cynnwys Michael Sheen, Morfydd Clarke, Matthew Rhys, Ruth Jones, Rakie Ayola a Caroline Sheen, ymysg sawl un arall. Mae'r Theatr yn gweithio gyda phobl greadigol rhwng 16 a 22 oed, waeth beth fo'u cefndir, gan ymfalchïo mewn cynnig aelodaeth ddwyieithog.

Mae sawl elfen i waith y Theatr megis llwybrau proffesiynol a phrofiad cynhyrchu preswyl yn ystod yr haf, sy'n arwain at fynd â sioe ar daith. Roedd cynhyrchiad 2023 yn bartneriaeth rhwng Fio, Theatr Cymru a'r Theatr, a lwyfannodd Dal Gafael/Hold On ar daith.

Codir tâl ar y rhai sy'n cymryd rhan yn sioeau'r Theatr, ond yn ffodus ceir "cronfa bwrsari go lew, ac rydyn ni'n cynnig bwrsariaethau. Yn y flwyddyn ddiwethaf, aethant i oddeutu 60% o'r bobl a gymerodd rhan. Cafodd traean ohonyn nhw fwrsariaeth lawn, siŵr o fod. Felly dylai arian ddim bod yn rhwystr. Mae gyda ni ein hanawsterau ariannol ac efallai y bydd rhaid inni dorri lawr yn sylweddol ar faint allwn ni ei fuddsoddi yn y gwaith cynhyrchu theatr, nid blwyddyn nesaf ond y flwyddyn wedyn. Mae theatr gymaint yn fwy drud. Mae'r theatr yn debycach i £170,000 ac mae 20 o gyfranogwyr yn y cast, yn hytrach na 90 yn y gynulleidfa."



Astudiaeth Achos:

## Sparc

### Sparc yw prosiect celfyddydau ieuenctid Plant y Cymoedd, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 25 yn 2023.

Mae Sparc yn gweithio yn yr holl gelfyddydau, gyda gwneud theatr wrth ei wraidd, gan weithio'n Saesneg yn bennaf. Mae'n cynnig sesiynau wythnosol a chyrsiau theatr a drama preswyl am ddim yn lleol i bobl ifanc 7-25 oed.

Mae aelodau Sparc wedi perfformio yn Tate Modern, yn nhreflannau De Affrica ac ym mynyddoedd gwlad Pwyl, ac wedi creu gwaith safle-benodol mewn coedwigoedd neu wedi trawsnewid gofodau'n brofiadau ymdrochol. Trwy ei brosiect ar y cyd â Chanolfan Mileniwm Cymru, Yn Gryfach Ynghyd, dyfarnwyd y comisiwn cyntaf dan arweiniad pobl ifanc iddo, gan weithio trwy'r pandemig gyda'r artist arweiniol Bethan Marlow.

Yn 2020, sefydlodd pedwar cyn-aelod o'r theatr ieuenctid rhwydwaith "Make it!" sydd bellach yn cynnwys mwy na 70 o artistiaid a gweithwyr creadigol ar ddechrau eu gyrfa. Datblygodd y sylfaenwyr eu gyrfaoedd eu hunain trwy gefnogi eraill, ac maent bellach yn gweithio yn y celfyddydau fel gweithwyr ieuenctid celfyddydol, awduron, actorion a gweithwyr creadigol.

"Er mwyn sicrhau dyfodol i theatr yng Nghymru, a fydd yn amrywiol ac yn hygyrch i bobl o gefndiroedd dan anfantais fel ein rhai ni ac a fydd yn tyfu cynulleidfaoedd newydd, rhaid cynnwys ein lleisiau ni yn y drafodaeth hon."

Astudiaeth Achos:

## Fio

### Roedd academi Next Up yn brosiect cydweithredol a arweiniwyd gan Fio ac a gyfunodd elfennau o gerddoriaeth *hip-hop* a *grime* gyda theatr.

Gan dargedu pobl greadigol y mwyafrif byd-eang, cynhaliwyd 21 o ddosbarthiadau meistr gydag ymarferwyr proffesiynol gwahanol (gan gynnwys arweinwyr (emcees), troellwyr disgiau, cyfarwyddwyr, brecddawnswyr, awduron sgript) a dyrchafu sgiliau o fewn celfyddydau gwahanol yn gysylltiedig â diwylliant *hip-hop* a *grime*. Daeth y prosiect i ben gyda pherfformiad yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru.

Mae Fio – ar y cyd â Chanolfan Mileniwm Cymru a phartneriaid eraill gan gynnwys Stage Directors UK – hefyd wedi cefnogi nifer o leoliadau â thâl i gyfarwyddwyr a chynhyrchwyr drwy raglen Arise.

## ii. Heb fod ar y cwricwlwm

Diffyg amlwg arall yw prinder dramâu Saesneg o Gymru ar y cwricwlwm ysgol: "Cafodd *Mametz* ei gyhoeddi gan Faber gyda chyfieithiad Cymraeg hyfryd gan Ceri Wyn Jones. Pam? Oherwydd ei fod yn rhan o lefel A drama'r wlad. Dw i wastad yn synnu cyn lleied o gyfnewid sydd rhwng y maes llafur a'r gymuned greadigol."

Nodwyd absenoldeb dramâu yn astudiaethau ysgolion Cymru gan sawl ymatebydd. Mae hyn yn adleisio'r gwaith ymchwil a gynhelir ar ran y Cyngor ar hyn o bryd fel rhan o'i adolygiad o gerddoriaeth draddodiadol a'i adolygiad o ddawns.

## Argymhellion: Ieuenctid a Datblygu i'r dyfodol

**Argymhelliad 22:**
Datblygu strategaeth theatr y Cyngor mewn cydweithrediad â phobl ifanc a sefydliadau partner allweddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 23:**
Y Cyngor i gwrdd â CBAC er mwyn trafod mecanweithiau ar gyfer ystyried cynnwys dramâu o Gymru yn y maes llafur.

Astudiaeth Achos:

## Mess Up The Mess

**Yn y cwmni theatr *Mess Up The Mess*, mae pobl ifanc 11-25 oed yn cyd-gynhyrchu prosiectau celfyddydau ieuenctid ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol. Mae pobl ifanc yn cydweithredu i ddatblygu rhaglenni amrywiol gan gynnwys cynyrchiadau gaeaf bob blwyddyn, ysgrifennu newydd, theatr ddyfeisiedig, theatr gorfforol, cabaret, gwaith cerdded safle-benodol a theatr i greu newid cymdeithasol.**

Datblygodd y bobl ifanc brosiect Yfory, gan greu gwaith am yr hyn hoffent ei amddiffyn a'i feithrin i'r dyfodol. Buont yn gweithio gyda phobl ifanc ledled de Cymru gan gynnwys rhai â salwch tymor hir, pobl ifanc yn y system ofal, gofalwyr ifanc, pobl ifanc ag anableddau dysgu a phobl ifanc sy'n ceisio lloches.

Enghraifft gryf yw'r prosiect Lleisiau Coll, mewn partneriaeth â Llamau, yr elusen i bobl ddigartref, a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Dros gyfnod o ddwy flynedd, bu pobl ifanc o Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd a wynebai risg digartrefedd neu a oedd wedi ei brofi, yn gweithio i greu cynhyrchiad theatr amlgyfrwng wedi'i anelu at benderfynwyr. Cafodd aelodau'r gynulleidfa eu trochi yn y rhwystredigaethau, y tagfeydd a'r anobaith a wynebir gan bobl ifanc, ochr yn ochr â'r heriau o ran tai ac iechyd meddwl.

# 9.
# Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru

**Canfuwyd newid yn y berthynas rhwng y sector a'r Cyngor. Roedd llawer yn difaru diffyg swyddog theatr dynodedig, canlyniadau datblygu system o gyfrifoldebau portffolio, colli swyddi a newidiadau i bersonél.**

"Dyw hi ddim wedi bod yn glir ers blynyddoedd a yw'r Cyngor yn fonitor grantiau, neu'r hyn mae fod i'w wneud, sef asiantaeth ddatblygu'r celfyddydau. Mae'n cael ei droi'n fwy o gyfrwng o hyd, tra'n wynebu toriadau ariannol ar yr un pryd."

"Ychydig o flynyddoedd yn ôl, roedd ymagwedd llawer mwy colegol rhwng y Cyngor Celfyddydau a'r sector. Yn ddiweddar, mae'n teimlo bod hynny wedi cael ei dorri'n hanner. Bellach mae'r berthynas yn teimlo'n drafodaethol ar gorau. Mae wir yn teimlo nad ydyn nhw'n ddim byd mwy nag ariannwr."

"Mae anhawster yn fewnol, yn bendant. Mae gyda ni lawer o bobl ar y Cyngor sy'n hoffi theatr ac yn mynd i weld pethau, ond does ganddyn nhw ddim arweiniad portffolio yn gyffredinol."

Dangosodd y broses adolygu faint o wybodaeth, mewnwelediad, arbenigedd a gweledigaeth sy'n bresennol yn y gymuned theatr yng Nghymru. Gallai'r Cyngor harneisio'r rhain yn fwy uniongyrchol, yn enwedig wrth iddo lunio strategaeth theatr i'r dyfodol.

## Argymhellion: Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru

**Argymhelliad 24:**
Enwebu aelod o staff Cyngor Celfyddydau Cymru i gydgysylltu'r gwaith sy'n codi o'r adolygiad hwn ac wedyn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth theatr Saesneg i Gymru.

**Argymhelliad 25:**
Sefydlu panel theatr sy'n cynnwys aelodau gwahanol a gwirioneddol gynrychiadol o Gymru a thu hwnt, i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r adolygiad hwn, datblygu strategaeth theatr Saesneg, a gwerthuso a chynghori ar gyllid newydd (gweler argymhellion 4-6).

# Atodiadau

## Atodiad 1: Cwestiynau'r arolwg adolygu

Beth yw'r bylchau yn y ddarpariaeth theatr Saesneg? Pa gynulleidfaoedd sydd ar goll a pham? Beth mae cynulleidfaoedd ei eisiau?

Sut gallwn ni gyflawni gwaith uchelgeisiol ar raddfa sy'n harneisio sgiliau a doniau creadigol y genedl?

Beth yw'r modelau posibl ar gyfer gwneud hyn?

Beth yw'r llwybrau presennol ar gyfer cefnogi dramodwyr, gwneuthurwyr theatr a'r proffesiynau a'r gweithwyr llawrydd cysylltiedig?

Pa lwyddiannau ac enghreifftiau o'r ymarfer gorau y gallwn adeiladu arnynt (dull seiliedig ar asedau)? Pa waith sy'n canfod ac yn cysylltu â chynulleidfa wrth i'r sector ddod yn ôl at ei goed ar ôl y pandemig?

Sut mae datblygu a graddio a dyrchafu cynyrchiadau i'r 'lefel genedlaethol'?

Beth sydd ei angen i wireddu hyn? Beth sydd ei angen ar wneuthurwyr theatr a phryd?

Pa lefel o fuddsoddiad y gallai fod ei hangen i gefnogi uchelgais yr adroddiad?

Beth yw pwysigrwydd National Theatre Wales, Saesneg ei hiaith, fel sefydliad i'r genedl?

Teithio ar raddfa ganolig – sut rydym yn cefnogi gwaith a modelau i fynd â gwaith i leoliadau ledled Cymru? Pa strwythurau sydd eu hangen ar gyfer gwneuthurwyr a lleoliadau theatr?

Datblygu talent a sgiliau – sut mae adeiladu ar yr ymarfer da sy'n bodoli eisoes?

Beth sy'n bwysig i sector y theatr a'r proffesiynau cysylltiedig o ran datblygu talent a chadw pobl mewn gwaith, a chyfleoedd ar gyfer creu partneriaethau creadigol newydd?

Swyddogaeth partneriaethau a chyfleoedd rhyngwladol

Gan gofio'r buddsoddiad cyfredol mewn theatrau a lleoliadau a defnyddio arian y Loteri a gwneud y mwyaf o werth cyhoeddus, pa ran y gall Cyngor Celfyddydau Cymru ei chwarae yn yr uchod? A oes ffyrdd gwell o ddosbarthu arian Cyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi teithio, datblygu theatr ac uchelgais?

## Atodiad 2: Ymgyngoreion yr Adolygiad

"Anya," Frân Wen
Gilly Adams
Karema Ahmed, Theatr Iolo
Bianca Ali
Nick Andrews, BBC Cymru/Wales
Jamie Anderson, Theatr Glan yr afon
Sarah Argent
Gareth Bale, actor/cyfarwyddwr
Miranda Ballin, Plant y Cymoedd
Julia Barry, Theatr y Sherman
Sarah Beer, Craidd
Tom Bevan, cynhyrchydd
David Britton, Theatr Cadair
Britton, Jesse, Rhondda Cynon Taf
Matthew Bulgo, dramodydd
Catrin Burns, actor
Sharon Casey, Glan yr afon
Kath Chandler, dramodydd
Naomi Chiffi, TEAM
Megan Childs, Theatr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru
Simon Curtis, Equity
Paul Davies, Volcano
Richard Davies, Parthian Books
Seiriol Davies
Karin Diamond, Re-Live
Steve Dimmick, NTW
Neil Docking, Nearside
Steffan Donnelly, Theatr Cymru
Nia Dwyer
Manon Eames, Urdd Awduron Prydain Fawr
Robert Edge, NTW
Alice Eklund, cyfarwyddwr
Ceri Evans, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Daniel Evans, RSC
Emma Evans, Canolfan Mileniwm Cymru
Gethin Evans, Frân Wen
Nia Wyn Evans, Arad Goch
Rhys Evans, BBC Cymru
Graeme Farrow, Canolfan Mileniwm Cymru
Parisa Fouladi, Fio
Chelsea Gillard, Theatr y Torch
Liam Evans-Ford, Theatr Clwyd
Phil George
Sharon Gilburd, NTW
Jacob Gough, Deryncoch
Osian Gwynn, Pontio
Rahim el Habachi
Bill Hamblett, Small World Theatre
Simon Harris, Lucid Theatre
Kristoffer Huball
Jerry Hunter, Theatr Cymru
Jafar Iqbal
Catriona James
Daf James
Dan Jones, The Other Room
Nia Jones, Frân Wen
Sarah Jones, Mess Up the Mess
Bridget Keenan, Paper Trail
Rebecca Knowles
Beth Lewis
Judith Lindwall
Lee Lyford, Theatr Iolo
Angharad Leefe, Theatr Cymru
Geraint Lewis
Leusa Llewelyn, Llenyddiaeth Cymru
Ben Lloyd, Theatr y Torch
Mathilde Lopez, August 012
Jen Lunn, Culturcated Theatre
Christina McCauley, BBC Cymru
John McGrath, Factory International
Adrian Metcalfe, Lighthouse Theatre
Louise Miles-Payne, Creu Cymru
Sharon Morgan
Rufus Mufassa

Fahadi Mukulu
Richard Mylan, Grand Ambition
Chris Morgan, Mess Up the Mess
Deri Morgan, Small World Theatre
Richard Huw Morgan, Good Cop Bad Cop
Joe Murphy, Theatr y Sherman
Llinos Neale, NTW
Marina Newth, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Melanie Newton
Guy O'Donnell, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru/Get the Chance
Azuka Oforka
Gary Owen
Llion Parry
Stella Patrick
Izzy Rabey
Kaite O'Reilly
Lisa Parry
David Parnell, Arts Council Ireland
Catherine Paskell, Dirty Protest
Michelle Perez, Theatr Iolo
Ben Pettitt-Wade, Hijinx
Francesca Pickard, Theatr y Sherman
Richard Pinner, Urdd Awduron Theatr
Gavin Porter
Tim Price
Marc Rees
Rhuanedd Richards, BBC Cymru
Rachel Riordan, Lyric Theatre, Hammersmith
John Rowley, Good Cop Bad Cop
Nye Russell-Thompson, Celfyddydau Anabledd Cymru
Michael Sheen
Owen Sheers
Ann Shrosbree, Small World Theatre
Adam Somerset, Theatre Wales
Geinor Styles, Theatr na nÓg
Stephan Stockton, New Theatre, Caerdydd
Ed Thomas, Fiction Factory
Owen Thomas, dramodydd
Richard Tunley, Black Rat
Gerald Tyler
Kate Wasserberg, Theatr Clwyd
Rhiannon White, Common Wealth
Ceriann Williams
Tumi Williams, Fio
David Wilson, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

## Atodiad 3: Detholiad o'r ymatebion i'r arolwg adolygu

Un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg ar-lein oedd: "Beth allai hybu theatr Saesneg yng Nghymru?" Gallai casgliad o'r atebion fod yn ddiddorol. "Rhagoriaeth" oedd un ateb syml, ac roedd eraill yn cynnig:

"Annog perfformio traws-ddisgyblaeth".

"Incwm Budd Cyffredinol".

"Sefydlu system ar gyfer gefeillio cymunedau theatr neu theatrau ffisegol, er mwyn iddyn nhw weld gwaith ei gilydd ac adeiladu pontydd newydd."

"Lleihau straeon cenedlaethol a chanolbwyntio ar rai lleol. Caiff straeon am Owain Glyndŵr neu'r gwaith dur eu derbyn yn wahanol iawn mewn rhannau gwahanol o Gymru."

"Creu Theatr Genedlaethol sy'n canolbwyntio ar greu gwaith newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg."

"Ail-ddychmygu cwmni theatr cenedlaethol dwyieithog, gyda rhyw fath o leoliad ffisegol y tro hwn."

"Peidiwch â gwastraffu'r holl waith da a aeth i mewn i NTW. Cafwyd elfennau o lwyddiannau mawr. Cyfunwch y ddau gwmni cenedlaethol yn un cwmni dwyieithog. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu cwmnïau cenedlaethol yn uniongyrchol a phenderfynu ar eu dyfodol, nid Cyngor y Celfyddydau."

"Micro-ariannu ar gyfer perfformio ar raddfa fach."

"Mwy o gydweithredu rhwng lleoliadau a chwmnïau cynhyrchu yng Nghymru er mwyn blaenoriaethu teithiau, datblygu cynulleidfaoedd gyda theuluoedd ac ysgolion. Gwella cymorth marchnata ymhob lleoliad."

"Hoffwn weld gwaith Saesneg a'i botensial ar y llwyfan byd-eang yn cael ei hyrwyddo'n weledol, a bod ffocws arno o'r newydd. Nid yw hyn yn cystadlu â gwaith Cymraeg, ond cafodd y gwaith Saesneg ei adael ar ôl i ryw raddau. Dwi dim ond wedi byw yng Nghymru ers 5 blynedd, ond cyn imi symud yma roeddwn i'n ymwybodol o ddarnau arloesol o waith a des i'w gweld - *Deep Cut*, *Iphigenia in Splott*, *My Name is Sue*, *The Bloody Ballad of Mary Maid* a *The Passion*, wrth gwrs. Fel rhywun o'r tu allan, roedd y dramâu hyn yn dweud wrtha i fod Cymru ar flaen y gad o ran theatr. Wrth gwrs, rydyn ni yma i wasanaethu cynulleidfaoedd Cymru ond rhaid i ran o hynny ymwneud â gwneud gwaith sy'n codi y tu hwnt i'r genedl. Er mwyn gwneud hyn, mae angen arnom fuddsoddi mewn cwmnïau ac artistiaid er mwyn iddynt gymryd risgiau a gwneud gwaith newydd, cyffrous a heriol, ac mae angen arnom ddatblygu cynulleidfaoedd i'w dderbyn. Mae'r economi ac adnoddau wedi ein gwneud ni'n wangalon. Wedi dweud hynny, un o'r rhwystredigaethau sydd gennym fel cwmni ac sydd gen i fel artist yw nad oes iaith lafar o gwbl yn y gwaith a wnawn i lawer o'r cynulleidfaoedd ifanc, ac felly mae'n anodd ei ddiffinio felly. Byddaf yn meddwl tybed a yw'r ffocws ar ba iaith a siaredir yn osgoi'r cwestiwn amlwg o beth sy'n dda, yn berthnasol ac yn ystyrlon."

"Mwy o gydweithredu rhwng lleoliadau a chwmnïau cynhyrchu yng Nghymru er mwyn blaenoriaethu teithiau, datblygu cynulleidfaoedd gyda theuluoedd ac ysgolion. Gwella cymorth marchnata ymhob lleoliad."

"Gwell fynediad i ddramayddiaeth fanwl, gefnogol a hirdymor. Mae awduron Cymru'n haeddu datblygu eu crefft yr un mor fanwl ag unrhyw awdur arall."

"Rhoi mwy o arian i berfformwyr a leolir yng Nghymru a dod o hyd i ffordd o roi lle i lwyfannu gwaith newydd e.e. mwy o nosweithiau sbrigiau neu ofod ymarfer fel mae Glan yr afon wedi'i wneud yng Nghasnewydd."

"Teithio i theatrau a gofodau sy'n bodoli eisoes. Does dim rhaid iddo fe fod yn Ganolfan Mileniwm Cymru neu hen ffactri."

"Gweithio'n agosach â Lloegr os nad oes gyda ni'r arian i wneud pethau'n iawn ar ein pennau ein hunain. Hyrwyddo ariannu teithiau, nid sioeau un-tro e.e. tair drama dros dair blwyddyn (gydag adolygiadau). Cronfa wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith a aeth heibio i'r cam ymchwil a datblygu. Proses ymgeisio aml-gam: Syniad - Partneriaethau a Hyfywedd Ymarferol - Hyfywedd Ariannol."

"Dwi'n gwerthfawrogi nad yw hyn yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol, ond mae angen gofodau yng Nghymru lle gall artistiaid sy'n dechrau ar eu gyrfaoedd, neu sydd yng nghanol eu gyrfaoedd, mynd i fethu. Rhywle lle gall pobl llwyfannu nosweithiau sbrigiau, rhoi cynnig ar ddeunyddiau newydd, lleoliad gwirioneddol ymylol sy'n gosod datblygu artistiaid uwchlaw popeth arall. Bydd llwyfannu eu gwaith o flaen cynulleidfaoedd, waeth pa mor fach, yn adeiladu hyder gwneuthurwyr theatr Saesneg, ac yn rhoi iddyn nhw'r ysgogiad i ddal ati. Ar hyn bryd, prin iawn yw'r lleoedd sydd ar gael lle gall artistiaid rhoi cynnig arni."

"Dileu'r angen i weithio gyda chwmnïau Portffolio Celfyddydau Cymru er mwyn i artistiaid llawr gwlad ffynnu a chysylltu â sefydliadau tu hwnt i'r celfyddydau, i dyfu cynulleidfaoedd a galw".

"Rhwydwaith o gwmnïau theatr yn gweithio mewn ysgolion, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â'r awdurdodau unedol lleol."

"Rhoi mwy o arian, ochr yn ochr â strategaeth gryfach. Nid yw'n helpu i esgus nad yw arian yn broblem, er dw i'n ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol."

"Pwynt hiwmor yw hi i mi. Pantomeim yw'r ffurf fwyaf poblogaidd o theatr ymysg teuluoedd yn y DU - nid am ei fod yn adrodd straeon tylwyth teg, ond am ei fod yn gwneud inni chwerthin. Dyna beth sy'n ein gwneud ni'n bobl. Yr un yw'r rheswm mai *Gavin and Stacey* yw'r gyfres deledu fwyaf llwyddiannus o Gymru o bell ffordd. Mae pobl Cymru ymysg y rhai mwyaf doniol des i ar eu traws erioed. Felly lle mae hynny ar y llwyfan? Os oes ateb, yn eironig, mae yn y gwaith Cymraeg sy'n cael ei wneud gan y Theatr Genedlaethol fel *Rhinoceros*, *Parti Priodas* neu ei gynllun datblygu "Ha ha". Felly dewch inni wneud yr un peth! Comisiynu comedïau o Gymru. Annog prosiectau traws-gelfyddydol gyda stand yp, clownio ac awduron comedi teledu. Datblygu gweithdai cymunedol mewn technegau slapstic. Caniatáu i arian prosiect gynnwys grwpiau sy'n perfformio sgetsys mewn tafarndai a chlybiau, nid dim ond dramâu ar lwyfannau. Mae hiwmor yn ddihangfa, mae'n ddwli. Ond hefyd mae ganddo'r gallu i'n meddalu ni, a thynnu sylw at yr anghyfiawnder a'r rhagrith yn ein cymdeithas yn llymach nag y gallai unrhyw ddrama syth. Os yw'r Cyngor yn pwysleisio i'w artistiaid ei fod yn hyrwyddo hiwmor Cymru cymaint ag unrhyw gelfyddyd arall - byddwn yn gweld symud enfawr yn y ffordd mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â theatr Saesneg yng Nghymru. Mae dau fwgwd ar y symbol theatr. Byddai'n drasiedi i anghofio am y comedi. ARIANNWCH YR HWYL."

"Mwy o bwyslais ar chwedleua o ansawdd. Pam ddim rhannu canran fach o'r arian a roddwch ar hap? Mae angen arnom feddwl y tu hwnt i'r blwch pitw rydyn ni ynddo. Roeddwn i'n arfer bod mor falch o'r gwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru yn y ddwy iaith. Nawr mae'r theatr Saesneg yn fy siomi o hyd – fel aelod o'r gynulleidfa ac fel perfformiwr."

"Cwmni cenedlaethol sy'n ymwreiddio'n wirioneddol mewn cymunedau, neu sy'n cefnogi cymunedau i wneud gwaith neu ddod â gwaith i Gymru."

"Ailymweld â dramâu newydd a oedd yn llwyddiannus ac y dylai fod yn rhan o ganon Cymru. Digon o arian i annog cwmni i fynd ar daith estynedig, o leiaf 3 noson mewn lleoliadau mwy ac yn gallu mynd ar daith fawr o'r lleoedd tu allan i'r dinasoedd. Galluogi cyd-gynyrchiadau a'u hannog gyda lleoedd tu allan i Gymru fel rhan o raglen gyfnewid."

"Cefnogaeth i waith ar raddfa fwy a dull aml-sefydliadol o'i lwyfannu."

"Byddwn i'n buddsoddi yn y Sherman. Dyna eich tŷ cynhyrchu yn eich prifddinas. Dylai fod ganddo ddigon o arian i wneud 10 sioe y flwyddyn. Ac wedyn y cyfrifoldeb i roi platfform i artistiaid, dylen nhw fod yn gallu troi sioeau allan yn y stiwdio yna yn yr un ffordd â Other Room. Pam ddim? Dylai fod ganddynt bethau newydd bob mis gan gyfarwyddwr sy'n dod i'r amlwg. Dylai ei phrif lwyfan fod yn llawn cyfarwyddwyr canol gyrfa o Gymru'n gwneud sioeau anhygoel. Byddai hynny'n ei galluogi i dyfu'r gynulleidfa. Maen nhw mewn dinas, felly pam ddim? Dechrau f'yna, ac wedyn mae angen hybiau, lleoliadau llai. Os na fydd Other Room yn ei wneud, mae'n anochel y bydd grŵp arall o bobl ifanc anhygoel eraill yn adeiladu theatr ymylol arall, ond nid cyn i'ch tŷ

cynhyrchu mawr ddechrau gweithredu'n wirioneddol. Buddsoddwch yn y Sherman a bydd y gweddill yn dilyn."

"Gan sôn am yr holl adeiladau eraill, y lleoliadau - mae pob un ohonynt bron a marw eisiau mwy o gysylltiad â'u cymunedau. Mae'n debyg y gallai fod rhaglen buddsoddi lle mae 'na brif artist gwahanol, yn awdur neu'n gyfarwyddwr neu'n ddisgyblaeth arall, y gallai Cyngor y Celfyddydau ei ariannu am ddwy flynedd i'w ymwreiddio yno, mae'n derbyn ei gyflog, heb fod yn swm enfawr, oddeutu £30,000 y flwyddyn am y fath o artist sy'n ddigon hyderus... O ran ariannu mwy o gwmnïau i gynhyrchu ar raddfa, mae'n debyg y bydd yn fwy cost effeithiol dros amser. A dyna beth dyw'r Sherman a'r Torch ddim yn ei gynnig. Does ganddyn nhw ddim yr adnoddau i fuddsoddi mewn rhannau eraill o'r sector, i fod mor hael â hynny. Mae ganddyn nhw'r arweinyddiaeth i fod mor hael â hynny. Ond dydyn nhw ddim yn gallu gwneud digon yn eu lleoliadau eu hunain hyd yn oed. Dyna beth ddylai gwmnïau theatr mawr, cenedlaethol, hyderus fod yn ei wneud. Rhaid ei fod yn llai drud i gael adeiladau ag adnoddau da sy'n gallu cefnogi'r cwmnïau yn hytrach na bod pob cwmni'n dechrau o'r dechrau."

"Os allech chi greu ac ariannu pum slot newydd yn stiwdio'r Sherman, ac un slot yn y brif theatr, fyddech chi'n newid y diwydiant. Byddech chi'n dechrau newid y diwydiant.".

"O gael y math cywir o raglen, o gael pum comisiwn stiwdio ac un prif lwyfan... bydd pethau'n dechrau digwydd wedyn. Un o'r slotiau stiwdio – efallai byddwn ni'n neidio mewn a phenderfynu cyd-ddarnio'r gwaith hwnnw a'i symud i'n stiwdio ni. Byddai'r Torch yn neidio i mewn hefyd, siŵr o fod,
a dweud y byddai wrth ei fodd yn cynnwys y sioe o'r prif lwyfan yn ei rhaglen."

"Mae angen colli'r embaras am eich prifddinas. Un o'r pethau sy'n gysylltiedig â'r arian yw bod rhaid ichi weld ei fudd ar draws y sector. Felly dyw'r holl gyfarwyddwyr ddim yn gallu dod o Gaerdydd, dyw'r holl awduron ddim yn gallu dod o Gaerdydd, ond dyna le mae'r canolfannau cynulleidfa mawr. Mae gyda chi nifer fawr o artistiaid a dylen ni fel gwlad edrych arno fel canolbwynt, pam na fydden ni? Hi yw ein prifddinas. Dw i'n deall bod pobl yn teimlo'n rhwystredig, ond maen nhw'n rhwystredig am eu bod nhw ddim yn cael cyfleoedd. Felly os wnewch chi'n siŵr eu bod yn cael cyfleoedd, bydd y rhwystredigaeth yn diflannu".

## Atodiad 4 :
## Rhestr o'r sefydliadau aml-flwyddyn sy'n ymwneud â theatr

| Sefydliad | Cynnig arian aml-flwyddyn 2024/5 (£) |
|---|---|
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | 531,012 |
| Arad Goch | 343,247 |
| Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen | 243,750 |
| Sefydliad y Glowyr Coed Duon | 128,018 |
| Canolfan Gerdd William Mathias Cyf | 79,409 |
| Canolfan Ucheldre | 74,446 |
| Chapter Cardiff Ltd. | 390,000 |
| Creu Cymru | 73,125 |
| Cwmni'r Frân Wen | 341,250 |
| Celfyddydau Anabledd Cymru | 195,000 |
| FIO | 214,500 |
| Galeri Caernarfon Cyf | 312,918 |
| Hijinx Theatre | 390,000 |
| Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru | 438,750 |
| Canolfan Gelfyddydau Pontardawe | 62,534 |
| Pontio | 277,178 |
| Re-Live | 78,000 |
| Theatr y Sherman | 1,114,180 |
| Small World Theatre Ltd | 58,500 |
| Tabernacl (Bethesda) Cyf | 121,875 |
| Cwmni Theatr Taking Flight | 287,625 |
| Canolfan Theatr a Chelfyddydau Glan yr afon | 73,125 |
| Theatr Bara Caws | 302,740 |
| Theatr Brycheiniog | 192,565 |
| Theatr Clwyd Trust Limited | 1,784,047 |
| Theatr Felinfach | 59,557 |
| Theatr Cymru | 1,018,761 |
| Theatr Iolo | 254,055 |
| Theatr Mwldan | 265,068 |
| Theatr na nÓg | 312,775 |
| Theatrau Sir Gâr | 48,750 |
| Torch Theatre Company Ltd | 633,750 |
| Volcano Theatre Company Ltd | 207,009 |
| Canolfan Mileniwm Cymru | 3,500,788 |
| Y Neuadd Les, Ystradgynlais | 92,625 |

# Atodiad 5: Astudiaethau Achos Theatr Cenedlaethol

Astudiaethau achos:

## Modelau Theatr Cenedlaethol

Mae gan wledydd gwahanol fodelau theatr cenedlaethol gwahanol. Mae rhai wedi'u lleoli mewn adeiladu, neu wedi'u hadeiladu'n syml o syniadau megis 'Theatr Cenedlaethol Dros Dro' **Denmarc**, arbrawf a gynhaliwyd yn 2010 i annog "sgwrs genedlaethol sydd ynddo'i hun yn drosiad diffiniol canolog ar gyfer hunaniaeth genedlaethol."

Sefydlwyd Theatr Abbey yn **Iwerddon** fel theatr cenedlaethol gan W.B. Yeats a'r Arglwyddes Gregory yn 1904. Diffiniodd y chwyldroadwyr hynny uchelgais Theatr Abbey yn ei faniffesto "i ddwyn i'r llwyfan emosiynau dwysach Iwerddon". Gellir dweud bod Iwerddon wedi adeiladu ei theatr cenedlaethol ar ddramâu a briciau fel ei gilydd.

Gofynnodd George Bernard Shaw: "A yw'r Saeson eisiau theatr genedlaethol? Wrth gwrs ddim. Dydyn nhw byth eisiau dim byd. Cawson nhw'r Amgueddfa Brydeinig, yr Oriel Genedlaethol, Abaty Westminster, ond doedden nhw byth eu heisiau nhw. Ond unwaith safai'r pethau hyn fel ffenomena rhyfedd a ddaeth atynt, roeddent yn falch ohonynt, ac yn teimlo na fyddai'r lle yn gyflawn hebddynt."

Yn 1848, y cyhoeddwr o Lundain Effingham Wilson oedd y cyntaf i alw am theatr genedlaethol yn **Lloegr**, mewn pamffled dan yr enw 'A House for Shakespeare'. Ond aeth canrif arall heibio cyn pasio'r ddeddf i ryddhau arian ar gyfer adeiladu theatr genedlaethol (1949), a 115 o flynyddoedd cyn lansio cwmni'r National Theatre (1963). Aeth 13 o flynyddoedd arall heibio eto fyth cyn agor yr adeilad newydd, sy'n gyfystyr â'r sefydliad erbyn hyn, i'r cyhoedd (1976). Adeilad Denys Lasdun yn Southbank, Llundain, yw un o'r modelau mwyaf enwog o theatr cenedlaethol a leolir mewn adeilad, a chaiff theatr unigol ei ategu gan y Stiwdio Genedlaethol.

Ar y llaw arall, datblygwyd Theatr Genedlaethol yr Alban yn "theatr heb furiau". Wedi datganoli'r **Alban** yn 1997, dechreuodd y cynlluniau a hir drafodwyd i sefydlu theatr cenedlaethol i'r Alban ddwyn ffrwyth. Yn 2000, gwahoddwyd Cyngor Celfyddydau'r Alban i gynnal astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer theatr cenedlaethol i'r Alban gan Weithrediaeth yr Alban. Y model a gytunwyd arno ar gyfer National Theatre of Scotland (NTS) oedd theatr comisiynu, "theatr heb furiau", heb yr angen am adeilad theatr newydd neu gwmni parhaol o actorion, ond yn hytrach theatr a ddefnyddiai'r adeiladau, actorion a staff technegol a fodolai eisoes i greu gwaith newydd i'w lwyfannu mewn lleoliadau ledled yr Alban ac yn rhyngwladol. Ym mis Medi 2003, cyhoeddodd Gweithrediaeth yr Alban arian gwerth £7.5 miliwn i sefydlu'r Theatr. Yn ei dro, hwn oedd y model ar gyfer National Theatre Wales, a sefydlwyd yn 2008.

Nid National Theatre Wales oedd y cwmni theatr cenedlaethol cyntaf yng Nghymru. Sefydlwyd y Welsh Theatre Company – gyda dwy ganolfan, y naill ym Mangor a'r llall yng Nghaerdydd, yn 1965. Gyda grant o'r corff a elwir y Cyngor Celfyddydau Cymreig ar y pryd, ei gylch gwaith oedd teithio ledled Cymru gyda chynyrchiadau Cymraeg a Saesneg. Cyflogwyd chwe actor o Gymru gan y cwmni ar y cychwyn.

# Atodiad 6:
# Data cynulleidfaoedd Portffolio Celfyddydau Cymru

## Diffiniadau:

**Lleoliadau cyflwyno:**
Yr holl leoliadau celfyddydau perfformio a ariennir trwy'r portffolio

**Perfformiadau/cynulleidfaoedd Theatr/Drama Deithiol:**
sefydliadau a ariennir trwy'r portffolio yn unig

**Perfformiadau/mynychiadau Theatr/Drama mewn lleoliadau cynhyrchu:**
Yr holl gynnyrch theatr mewn lleoliadau cynhyrchu a ariennir trwy'r portffolio

## Perfformiadau:

| Lleoliadau Cyflwyno Perfformiadau | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 42 | 103 | 110 | |
| Saesneg | 197 | 818 | 1031 | |
| Dwyieithog | 10 | 111 | 65 | |
| **Cyfanswm (holl ieithoedd)** | **289** | **1061** | **1281** | |

| Perfformiadau Teithiol Theatr/Drama | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 169 | 614 | 332 | |
| Saesneg | 181 | 722 | 874 | |
| Dwyieithog | 10 | 27 | 3 | |
| **Cyfanswm (holl ieithoedd)** | **414** | **1492** | **1451** | |

| Perfformiadau/mynychiadau Theatr/Drama mewn lleoliadau cynhyrchu | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 1 | 24 | 30 | |
| Saesneg | 74 | 409 | 651 | |
| Dwyieithog | 0 | 8 | 36 | |
| **Cyfanswm (holl ieithoedd)** | **75** | **441** | **721** | |

## Mynychwyr:

| Nifer Mynychwyr mewn Lleoliadau Cyflwyno | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 17078 | 6443 | 16828 | |
| Saesneg | 112872 | 193452 | 400992 | |
| Dwyieithog | 770 | 5067 | 7356 | |
| **Cyfanswm (holl ieithoedd)** | **237887** | **206945** | **656792** | |

| Theatr/Drama Deithiol Nifer Mynychwyr | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 14979 | 33294 | 3880 | |
| Saesneg | 39815 | 447122 | 48039 | |
| Dwyieithog | 1140 | 15901 | 13251 | |
| **Cyfanswm (holl ieithoedd)** | **76671** | **565375** | **442810** | |

| Mynychwyr Theatr/Drama mewn Lleoliadau Cynhyrchu | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Tueddiad |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 76 | 2080 | 3834 | |
| Saesneg | 2517 | 54777 | 292430 | |
| Dwyieithog | 0 | 63 | 7840 | |
| **Cyfanswm (holl ieithoedd)** | **2593** | **56920** | **304991** | |